

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research

Rhif/Number: 84/2014



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd  
mewn Addysg Bellach

# **Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

## **Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach**

25 Medi 2014

### **Arad**

Brett Duggan, Hefin Thomas a Sioned Lewis

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:

Catrin Redknap

Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Llywodraeth Cymru

[catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk](mailto:catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk)

Ffôn. 029 20 825 720

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

ISBN 978-1-4734-2134-9

© Hawlfraint y Goron 2014

## Tabl cynnwys

|                                                                                                                          |    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Crynodeb gweithredol .....                                                                                               | 3  |
| 1 Cyflwyniad i'r adolygiad .....                                                                                         | 13 |
| 2 Trosolwg o'r fethodoleg .....                                                                                          | 22 |
| 3 Cynllunio dwyieithrwydd yn strategol.....                                                                              | 25 |
| 4 Cynyddu darpariaeth a hybu galw .....                                                                                  | 35 |
| 5 Y gweithlu.....                                                                                                        | 48 |
| 6 Cydweithio a chynaliadwyedd .....                                                                                      | 58 |
| 7 Casgliadau ac argymhellion .....                                                                                       | 64 |
| Atodiad A: Canllaw holi astudiaeth Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd .....                                                        | 80 |
| Atodiad B: Rhestr yr unigolion a gyfrannodd at yr astudiaeth .....                                                       | 87 |
| Atodiad C: Grantiau i sefydliadau addysg bellach i gefnogi prosiect<br>Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd (2006/07 i 2016/17)..... | 89 |

## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth o'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn addysg bellach ('y prosiect') a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2012 a Gorffennaf 2013 gan gwmni ymchwil Arad ar ran Llywodraeth Cymru.
2. Mae'r astudiaeth yn rhan o raglen ymchwil ehangach i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Bydd y gwerthusiad cynhwysfawr hwnnw yn cymryd i ystyriaeth ddatblygiadau ar draws yr ystod o brosiectau a rhaglenni a weithredir fel rhan o'r Strategaeth.
3. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd ar ffurf grantiau i sefydliadau addysg bellach. Nod y prosiect yw creu strwythur cefnogol mewn colegau lle na fu llawer o seilwaith yn draddodiadol i annog darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae naw amcan yn cefnogi'r nod hwn:

- |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <ol style="list-style-type: none"><li>i. Galluogi'r colegau i ddatblygu strategaeth gadarn a rhoi cynllun ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr.</li><li>ii. Cynyddu nifer y cyrsiau a modiwlau safonol sydd ar gael i ddysgwyr yn y colegau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r continwmm iaith Gymraeg.</li><li>iii. Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.</li><li>iv. Cynnal a gwella sgiliau Cymraeg y dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu rai dwyieithog.</li><li>v. Cynyddu nifer staff y coleg a all helpu ac sy'n gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg.</li><li>vi. Datblygu gallu staff er mwyn i golegau roi mwy o gymorth i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, cyfleoedd dysgu ffurfiol yn ogystal â sefyllfaoedd cymdeithasol anffurfiol fydd yn datblygu sgiliau ieithyddol dwyieithog ac ymwybyddiaeth iaith ymhellach.</li><li>vii. Sefydlu a chynnal rhaglen fentora yn y coleg i gefnogi staff y coleg sy'n dilyn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, neu y mae angen cymorth ychwanegol</li></ol> |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

- |       |                                                                                                                                                                   |
|-------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|       | arnynt i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.                                                                                                        |
| viii. | Rhannu arfer da a chynnig cymorth ymarferol yn y colegau ac mewn cydweithrediad â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yn yr ardal, gyda chefnogaeth Sgiliaith. |
| ix.   | Dylai'r colegau gynllunio ac ariannu rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd fel rhan annatod o strategaethau cyffredinol y coleg ar ôl i'r arian grant ddod i ben.        |

*Ffynhonnell: Prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd 2012/2013 Gwybodaeth Gefndirol, Llywodraeth Cymru*

4. Mae'r amcanion hyn yn gyson â'r blaenoriaethau a osodwyd i'r sector gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei lythyr at benaethiaid sefydliadau addysg bellach Cymru ym Mai 2013: nododd y llythyr y dylai sefydliadau barhau *'i gynyddu'r opsiynau dysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog sydd ar gael a nifer y myfyrwyr sy'n dewis yr opsiynau hynny er mwyn ategu ein Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'*.<sup>1</sup>
5. Mae'r canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfuniad o ymchwil desg a chyfweliadau. Adolygwyd cynlluniau strategol sefydliadau, adroddiadau monitro prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru a dogfennaeth arall sy'n berthnasol i'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Cwblhawyd cyfweliadau gyda 16 o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd (13 yn ystod ymweliadau i golegau a thri dros y ffôn), naw o gyfarwyddwyr neu reolwyr colegau, 13 o diwtoriaid a 33 o ddysgwyr. Cwblhawyd cyfweliadau hefyd gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ColegauCymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Ceir manylion pellach am y fethodoleg y Mhennod 2.
6. Rôl bennaf Hyrwyddwyr yw cefnogi cynllunio strategol yn eu sefydliadau i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r astudiaeth hon yn tanlinellu rhai o'r heriau sydd ynghlwm ag asesu a deall dylanwad yr

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru (Mai 2013), *Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru: Blaenoriaethau ar gyfer y sector addysg bellach 2014/15*, Gweinidog Addysg a Sgiliau.  
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131024-priorities-further-education-institutions-2014-15-cy.pdf>

Hyrwyddwyr. Ar y naill ochr, mae ystod o ffactorau yn dylanwadu ar waith yr Hyrwyddwyr (cyfeirir, er enghraifft, yn yr adroddiad hwn at ddatblygiadau polisi addysg bellach a'r gyfundrefn gyllido). Gallai'r Hyrwyddwyr fod yn cyflawni gwaith arloesol ac o ansawdd uchel, ond gall bod ffactorau eraill yn rhwystro sefydlu strategaeth sefydliadol gefnogol. Ar yr ochr arall, gallai ffactorau eraill hwyluso datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith yr Hyrwyddwyr. Rhaid cydnabod y cyfyngiadau, felly, wrth geisio priodoli unrhyw newidiadau a welir i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y colegau i ddylanwad yr Hyrwyddwyr yn uniongyrchol.

7. Mae holl sefydliadau addysg bellach Cymru wedi derbyn cefnogaeth ariannol drwy'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd i ymgorffori a rhoi ar waith gynlluniau i gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Awgryma'r dystiolaeth bod angen i sefydliadau gymryd y cyfrifoldeb i ariannu a gyrru datblygiadau fel rhan o'u blaenoriaethau craidd, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

### **Canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion mewn perthynas ag amcanion y prosiect**

*Amcan 1: Galluogi'r colegau i ddatblygu strategaeth gadarn a rhoi cynllun ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr.*

8. Mae gwaith yr Hyrwyddwyr wedi arwain at gynydd yn y sylw a roddir gan golegau i gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r gwaith o newid diwylliant a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn broses tymor hir.
9. Mae angen camau pellach i wella'r cynllunio strategol sydd yn digwydd ar draws y sector addysg bellach i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'n hanfodol bod cefnogaeth lawn gan benaethiaid a thimau uwch reoli sefydliadau a bod cynlluniau gweithredu cadarn mewn lle i yrru datblygiadau.

10. Mae'r dystiolaeth yn dangos gwerth sefydlu grŵp llywio i fod yn gyfrifol am ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae sicrhau cynrychiolaeth eang ar grŵp strategol o'r fath yn medru cyfrannu at gynaliadwyedd y prosiect.

**Argymhelliad 1: i Lywodraeth Cymru**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl golegau yn cwblhau cynlluniau gweithredu i ddatblygu darpariaeth Cymraeg a'u bod ar gael yn gyhoeddus. Er mwyn cefnogi'r cynlluniau gweithredu hyn, dylai colegau sicrhau bod gan Hyrwyddwyr gyswllt uniongyrchol gydag uwch reolwyr perthnasol yn y sefydliadau a'u bod yn derbyn cefnogaeth gan grŵp llywio mewnol.

Amcan 2: Cynyddu nifer y cyrsiau a modiwlau safonol sydd ar gael i ddysgwyr yn y colegau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r continwum iaith Gymraeg.

Amcan 3: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

11. Gwelwyd twf ar lefel genedlaethol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector addysg bellach ers gosod targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar feincnod 2007/8. Mae hyn yn galonogol. Serch hynny, mae'r data ar lefel sefydliadol mewn perthynas â'r amcanion uchod yn seiliedig ar ddulliau adrodd amrywiol (gweler Pennod 4).

**Argymhelliad 2: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai colegau, gyda chymorth ColegauCymru, wella ansawdd y data a gesglir ar yr opsiynau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a nifer y myfyrwyr sy'n dewis yr opsiynau hynny. Dylai'r data yma fod ar ffurf gyson sydd yn caniatáu cymharu rhwng sefydliadau a thros amser.

12. Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg ym mis Ebrill 2012, a'i nod yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori 'Safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg' yn Ionawr 2014, gyda'r safonau cyntaf yn canolbwyntio

ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.<sup>2</sup> Disgwylir y bydd safonau pellach yn ymdrin â chyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill, gan gynnwys colegau addysg bellach. Bydd angen i golegau ystyried goblygiadau'r datblygiadau hyn wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol.

13. Mae rhwystrau wrth geisio symbylu galw ymysg myfyrwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Un her a adroddir gan Hyrwyddwyr yw casglu a chyflwyno tystiolaeth o fanteision cynnal sgiliau iaith Gymraeg. Dylid ystyried yr arfer da a ddatblygwyd wrth farchnata addysg Gymraeg mewn sectorau eraill (e.e. addysg uwch) a sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn gweithio mewn partneriaeth i adeiladu ar ddulliau effeithiol. Gallai canfyddiadau'r adroddiad 'Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector' sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fod o ddefnydd i golegau wrth iddynt annog dysgwyr i gynnal neu wella'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'r cyrsiau.<sup>3</sup>

**Argymhelliad 3: i Golegau Cymru**

Dylid llunio canllawiau i golegau ar ddulliau o annog myfyrwyr i ddilyn rhan o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Amcan 4: Cynnal a gwella sgiliau Cymraeg y dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu rai dwyieithog.*

14. Gwelwyd ymdrechion gan golegau i gynnal a gwella sgiliau ieithyddol myfyrwyr. Fodd bynnag, nid ydyw wedi bod yn bosibl i fesur effeithiolrwydd y cynllun mewn perthynas â'r amcan hwn, yn bennaf oherwydd bod colegau yn defnyddio dulliau amrywiol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth ar allu ieithyddol myfyrwyr.

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (Ionawr 2014), *Dogfen Ymgynghori: Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg*  
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140106-consultation-on-standards-relating-to-the-welsh-language-cy.pdf>

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru (Ebrill 2014), *Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector*  
<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-language-skills-needs-eight-sectors/?lang=cy>



15. Mae angen targedu cefnogaeth briodol at ddysgwyr gan adnabod cyfleoedd i gynnig rhan neu rywfaint o gyrsiau drwy'r Gymraeg i ddysgwyr gyda sgiliau iaith Gymraeg.

**Argymhelliad 4: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai sefydliadau sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg i brofi rhai modiwlau neu elfennau o'u cyrsiau yn y Gymraeg, fel modd o gynnal eu sgiliau.

Amcan 5: Cynyddu nifer staff y coleg a all helpu ac sy'n gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg.

Amcan 6: Datblygu gallu staff er mwyn i golegau roi mwy o gymorth i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, cyfleoedd dysgu ffurfiol yn ogystal â sefyllfaoedd cymdeithasol anffurfiol fydd yn datblygu sgiliau ieithyddol dwyieithog ac ymwybyddiaeth iaith ymhellach.

16. Mae mwyafrif y colegau yn casglu data ar sgiliau iaith Gymraeg eu staff. Serch hynny, darlun anghyflawn sydd o nifer yr ymarferwyr ar draws y sector sy'n gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai cysoni'r dull o gasglu data ar draws yr holl golegau, gan ofyn am ddata ar wahanol lefelau ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn galluogi dadansoddiad mwy cadarn o'r sefyllfa yn y colegau unigol ac ar draws y sector.
17. Adrodda lleiafrif y sefydliadau bod ganddynt strategaethau staffio sy'n gosod pwyslais penodol ar gynyddu nifer staff gyda sgiliau iaith er mwyn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gwnaed hyn am y tro cyntaf yn sgil penodi'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd.

**Argymhelliad 5: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai colegau sicrhau eu bod yn ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi newydd gan ystyried proffil ieithyddol cyfadrannau'r colegau a meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

#### **Argymhelliad 6: i GolegauCymru**

Dylai ColegauCymru ledaenu'r arfer da a welwyd mewn rhai colegau wrth gyflogi staff gyda sgiliau Cymraeg i'w galluogi i ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg newydd.

18. Mae'r Cynllun Sabothol yn cynnig cyfleoedd i wella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a chynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Dengys adolygiad diweddar o'r Cynllun hwnnw y bu twf yn nifer y cyfranogwyr o'r sector addysg bellach sydd yn mynychu cyrsiau, ond bod gan rhai sefydliadau addysg bellach bryderon ynghylch rhyddhau aelodau staff i fynychu'r cwrs oherwydd ei bod weithiau yn anodd dod o hyd i staff cyflenwi addas.<sup>4</sup> Cesglir yn yr adolygiad bod lle i dynhau ar y broses o gynllunio a recriwtio i'r Cynllun Sabothol.
19. Datblygwyd Erfyn Diagnostig Sgiliau gan CBAC ar ran Llywodraeth Cymru i gynorthwyo cyflogwyr i ddeall a dadansoddi lefel sgiliau iaith Gymraeg eu staff. Cyfrannodd colegau at y broses o ddatblygu'r erfyn hwn ac fe'i ddefnyddir eisoes gan Hyrwyddwyr. Mae'n cynnig cyfle i hwyluso'r broses o adnabod bylchau (mewn sgiliau iaith) a thargedu datblygiad sgiliau pellach yn y Gymraeg.

#### **Argymhelliad 7: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai colegau sicrhau eu bod yn gwneud defnydd o'r erfyn adnabod sgiliau iaith Gymraeg a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hwyluso'r broses o ddatblygu sgiliau'r gweithlu ar wahanol lefelau i ddiwallu'r flaenoriaeth strategol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

*Amcan 7: Sefydlu a chynnal rhaglen fentora yn y coleg i gefnogi staff y coleg sy'n dilyn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.*

20. Mae rhaglenni mentora yn sicrhau bod cefnogaeth werthfawr mewn lle i fagu hyder ymysg tiwtoriaid sydd wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant i

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (Ionawr 2014), *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012*

ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hyrwyddwyr wedi chwarae rôl bwysig wrth sefydlu rhaglenni mentora ym mwyafrif y sefydliadau addysg bellach. Dengys y dystiolaeth bod angen hyblygrwydd wrth gynnig cymorth mentora, gan deilwra'r gefnogaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion ymarferwyr.

**Argymhelliad 8: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai sefydliadau, gyda chefnogaeth Sgiliaith, sefydlu a ffurfioli rhaglenni mentora er mwyn sicrhau bod cymorth priodol ar gael sy'n galluogi ymarferwyr i fanteisio ar y sgiliau iaith Gymraeg sydd ganddynt.

*Amcan 8: Rhannu arfer da a chynnig cymorth ymarferol yn y colegau ac mewn cydweithrediad â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yn yr ardal, gyda chefnogaeth Sgiliaith.*

21. Mae prinder adnoddau yn medru bod yn broblem i rai tiwtoriaid. Byddai ffordd o 'fapio' yr adnoddau sydd ar gael mewn gwahanol bynciau yn gymorth i'r Hyrwyddwyr ac i ymarferwyr ac yn cynnig cyfleoedd i rannu adnoddau rhwng sefydliadau.

**Argymhelliad 9: i GolegauCymru**

Dylid ystyried cwblhau ymarfer i fapio'r adnoddau cyfrwng Cymraeg a ddatblygwyd ac a ddefnyddir gan golegau a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i rannu adnoddau lle'n bosibl. Gallai'r broses fapio hon fwydo'r broses o adnabod anghenion adnoddau cyfrwng Cymraeg a phroses gomisiynu adnoddau Llywodraeth Cymru.

22. Mae gan ystod o bartneriaid arbenigedd i fedru cefnogi datblygiad darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn annog cydweithio rhwng ColegauCymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydliadau a mudiadau eraill er mwyn manteisio ar y cyfleoedd i rannu arferion da wrth farchnata a chyflwyno darpariaeth Cymraeg newydd.

#### **Argymhelliad 10: i Lywodraeth Cymru**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gefnogaeth bellach y gellid ei chynnig er mwyn annog colegau i farchnata a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau blaenoriaeth neu feysydd o arwyddocâd strategol.

*Amcan 9: Dylai'r colegau gynllunio ac ariannu rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd fel rhan annatod o strategaethau cyffredinol y coleg ar ôl i'r arian grant ddod i ben.*

23. Mae'r hinsawdd ariannol ehangach, law yn llaw gydag adolygiadau diweddar o'r trefniadau cyllido yn y sector Addysg Bellach, wedi golygu nad yw colegau wedi medru cynllunio ymlaen gyda sicrwydd. Sgil-ffaith hyn ar y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yw nad oes ymrwymadau cadarn wedi'u rhoi i gynnal gwaith yr Hyrwyddwyr ym mwyafrif y colegau.

24. Mae colegau wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol i ariannu tiwtoriaid ychwanegol, mentoriaid neu ddatblygiad adnoddau. Serch hynny, mae lefel y buddsoddiad ychwanegol hwn yn amrywio.

#### **Argymhelliad 11: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai colegau gadarnhau eu cynlluniau i gynnal rôl yr Hyrwyddwyr, gan gynnwys nodi sut y bydd swyddogaethau'r Hyrwyddwyr yn cael eu hymgorffori o fewn gwaith y sefydliad yn barhaus.

### **Casgliadau yng nghyd-destun y gwerthusiad llawn o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

25. Cesglir yn yr Adolygiad hwn bod gwaith yr Hyrwyddwyr yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i '*wella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant*', un o nodau strategol perthnasol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rôl yr Hyrwyddwyr wedi golygu bod sefydliadau wedi ffurfioli'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

26. Gwelwyd bod partneriaethau newydd yn datblygu rhwng colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy waith yr Hyrwyddwyr. Mae tystiolaeth bod colegau yn targedu datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd galwedigaethol allweddol.
27. Mae gallu Hyrwyddwyr i ddatblygu perthynas dda gydag ymarferwyr/tiwtoriaid wedi hwyluso'r broses o adnabod anghenion hyfforddiant iaith. Teimlir, serch hynny, bod lle i wella'r dulliau o gefnogi sgiliau iaith ymarferwyr drwy sicrhau bod yr hyfforddiant a gynigir yn bwrpasol ac yn rhan o gynllun gweithredu.
28. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae'n annhebygol iawn y byddai'r datblygiadau a welwyd ar draws y sector wedi digwydd pe na bai prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn bodoli. Yn ei hanfod, hwyluso newidiadau i brosesau cynllunio colegau yw prif waith yr Hyrwyddwyr; mae'n fuddsoddiad dros gyfnod cymharol fyr i geisio cyflwyno newidiadau tymor hir i'r ffordd y mae colegau yn gweithredu, sy'n gofyn am ymrwymiad cadarn gan benaethiaid ac uwch-reolwyr sefydliadau.

# 1 Cyflwyniad i'r adolygiad

- 1.1 Comisiynwyd Arad Research i gynnal astudiaeth o'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil a gwblhawyd rhwng Rhagfyr 2012 a Gorffennaf 2013.

## Nod yr astudiaeth

- 1.2 Nod yr astudiaeth oedd ystyried dylanwad yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wrth gefnogi'r bwriad o greu strwythur cefnogol i annog darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyflwyno'r adroddiad hwn ganfyddiadau mewn perthynas â gwaith yr Hyrwyddwyr mewn colegau addysg bellach yn ogystal â chasgliadau ar gynnydd yn erbyn amcanion y prosiect (gweler Adran 1.15 isod).

## Cyd-destun yr astudiaeth

- 1.3 Mae'r astudiaeth hon yn rhan o ymchwil ehangach i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2010.<sup>5</sup> Comisiynwyd Arad i gwblhau rhaglen o ymchwil i ystyried traweffeithiau'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd, gan ddefnyddio'r *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* fel sail ar gyfer y rhaglen waith.<sup>6</sup> Cynigia'r Fframwaith Gwerthuso sylfaen ar gyfer mynd i'r afael â'r amcanion a'r cwestiynau ymchwil a nodwyd yn y Fanyleb ar gyfer y rhaglen ymchwil.<sup>7</sup> Mae'r amcanion hyn yn cynnwys ystyried cynnydd yn erbyn nodau a thargedau'r Strategaeth, yn ogystal ag ystyried a yw'r nodau a'r targedau yn parhau i fod yn briodol. Bwriedir hefyd i'r gwerthusiad ystyried y ffactorau sy'n rhwystro neu'n cefnogi

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy>

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru (2011) *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* <http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/120330welsheducationcy.pdf>

<sup>7</sup> Manyleb ar gyfer rhaglen annibynnol o ymchwil i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Hysbysebwyd gan Lywodraeth Cymru drwy wefan sell2wales yng Ngorffennaf 2012.

gweledigaeth y Strategaeth, gan ymchwilio effeithiolrwydd gwahanol weithgareddau mewn gwahanol ardaloedd a chyd-destunau. Bydd allbynnau'r gwerthusiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru a phartneriaid strategol eraill, ac yn awgrymu ffyrdd o addasu neu wella eu cynlluniau i gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg.

- 1.4 Adolygwyd y Fframwaith Gwerthuso yn gynnar yn 2013 fel rhan o'r rhaglen ymchwil gyfredol; adeiladwyd ar y theori newid, a datblygwyd model rhesymeg ar gyfer y rhaglen ymchwil. Mae'r cwestiynau sydd wedi eu hadnabod yn sgil y broses honno yn caniatáu i ni ystyried arwyddocâd y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yng nghyd-destun y gwerthusiad llawn o'r Strategaeth. Mae'r cwestiynau isod yn dehongli cwestiynau'r Fframwaith Gwerthuso ac yn eu cysylltu yn benodol â gwaith yr Hyrwyddwyr. Cyflwynir casgliadau mewn perthynas â'r cwestiynau hyn yn Adrannau 7.33-7.48.

- i. I ba raddau y mae'r prosiect yn cefnogi nodau, deilliannau ac amcanion y Strategaeth? Yn benodol:
  - Ym mha ffordd y mae'r prosiect wedi gwella'r broses o gynllunio darpariaeth?
  - A yw'r prosiect wedi helpu i sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i gyrsiau ôl-16?
  - A yw'r prosiect wedi cyfrannu at y nod o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg ymarferwyr?
- ii. Beth yw'r prif ffactorau sy'n hwyluso/rhwystro cynnydd yn erbyn deilliannau?
- iii. A yw'r prosiect yn plethu â/ategu rhaglenni eraill sy'n rhan o'r Strategaeth?
- iv. Y gwrthffeithiol: A fyddai'r datblygiadau a welwyd yn y colegau wedi digwydd yn absenoldeb y prosiect?

- 1.5 Cyfeiria Nod Strategol 2 y Strategaeth at yr angen i wella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod ôl-14, gan gyfeirio'n

benodol at yr angen i sicrhau 'mwy o gyfraniad gan y sector addysg bellach' er mwyn cefnogi dilyniant ieithyddol a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr. Mae'r Strategaeth yn gosod targedau ar gyfer darparwyr addysg bellach a darparwyr dysgu'n seiliedig ar waith i gynyddu gweithgareddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

*Tabl 1: Targedau ar gyfer cynyddu'r nifer o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg*

| <b>Deilliant 4</b>                                                                                                    |         |      |          |      |       |      |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|------|----------|------|-------|------|
| Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith |         |      |          |      |       |      |
| Dangosyddion                                                                                                          |         |      | Targedau |      |       |      |
| Gweithgareddau addysg myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu*                                                                 | 2007/08 |      | 2015     |      | 2020  |      |
|                                                                                                                       | CC**    | D**  | CC       | D    | CC    | D    |
| Ysgolion                                                                                                              | 9.6%    | 5.3% | 12.0%    | 6.0% | 14.0% | 6.0% |
| Sefydliadau addysg bellach                                                                                            | 0.2%    | 4.5% | 1.0%     | 6.0% | 2.0%  | 8.0% |
| Dysgu seiliedig ar waith                                                                                              | 0.2%    | 1.2% | 0.5%     | 2.0% | 1.0%  | 3.0% |

Ffynhonnell: Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2010)

\* ac eithrio addysg iaith Gymraeg (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, LA26)

\*\* CC = Cyfrwng Cymraeg; D = Dwyieithog

- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd er mwyn deall traweffeithiau'r prosiect wrth gefnogi'r deilliant uchod.

## Cefndir sefydlu prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd

### Y cynllun peilot

- 1.7 Sefydlwyd y prosiect yn 2005 fel cynllun peilot yn wreiddiol, gyda thri choleg, Coleg Llandrillo (sydd bellach yn rhan o Grŵp Llandrillo-Menai), Coleg Llysfasi (a unodd gyda Choleg Glannau Dyfrdwy, sydd bellach yn Goleg Cambria) a Choleg Sir Gâr, yn derbyn grant i ariannu swyddi Hyrwyddwyr (gweler Atodiad C).<sup>8</sup> Yn ystod y cyfnod peilot, daeth Coleg

<sup>8</sup> Mae Atodiad C yn nodi pa sefydliadau a dderbyniodd arian grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Prosiect rhwng 2006/07 a 2016/17.



Castell-nedd Port Talbot (sydd bellach yn Grŵp NPTC) yn rhan o'r prosiect gan fod datblygiadau tebyg i'r prosiect wedi dechrau yn y coleg hwnnw gyda chefnogaeth grant o ffrwd arall; penderfynwyd parhau i ariannu'r datblygiadau hynny fel rhan o'r prosiect Hyrwyddwyr.

1.8 Nod y prosiect yw creu strwythur cefnogol mewn colegau lle na fu llawer o seilwaith yn draddodiadol i annog darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y deilliannau disgwyledig yn y tymor hir yw cynnydd yn nifer ac ansawdd y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

1.9 Cwblhawyd gwerthusiad o'r prosiect peilot ym mis Hydref 2008.<sup>9</sup> Nododd yr adroddiad gwerthuso hwnnw bod yr Hyrwyddwyr wedi galluogi colegau i greu strwythur cefnogol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Drwy ddatblygu sgiliau iaith staff, bu'n bosibl cyflwyno darpariaeth Gymraeg a/neu ddwyieithog newydd i ddysgwyr. Nododd yr adroddiad hefyd y nodweddion allweddol a gyfrannodd at lwyddiannau a chynnydd yn ystod y cynllun peilot, yn benodol:

- i. Sefydlu strwythur tair haen (gydag uwch reolwyr, yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd a chydlynwyr adrannau/cyfadrannau yn cydweithio i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg).
- ii. Ymrwymiad ymhlith uwch reolwyr i hyrwyddo dwyieithrwydd fel un o gryfderau'r coleg.
- iii. Penodi'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd ar lefel uwch ddarlithwyr.
- iv. Bod rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog wedi'i sefydlu eisoes mewn nifer cyfyngedig o gyfadrannau.

1.10 Yn wreiddiol, cytunwyd i ariannu'r cynllun peilot tan Awst 2008; estynnwyd y cynllun am 12 mis ychwanegol (gan dorri lefel y cymorth ariannol o £49,000 i £40,000 i'r colegau peilot). Argymhellwyd yn y gwerthusiad o'r cynllun peilot y dylid ymestyn y prosiect i golegau eraill.

---

<sup>9</sup>Arad Research ar ran Llywodraeth Cymru. *Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* (Hydref 2008).

### *Ehangu'r cynllun*

- 1.11 Yn dilyn y cynnydd a wnaed gan y colegau yn ystod y cyfnod peilot, penderfynodd Llywodraeth Cymru ariannu Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn pedwar coleg ychwanegol. Rhwng Ebrill a Mehefin 2011, dechreuodd Hyrwyddwyr ar eu gwaith yng ngholegau Ceredigion, Iâl (Coleg Cambria), Gwent a Phartneriaeth Caerdydd a'r Fro (Coleg Glan Hafren a Choleg Y Barri) YMCA a WEA, a chytunwyd i ariannu'r ail don hyd at Awst 2014, gyda chyfraniad blynyddol o £52,000 fesul coleg.
- 1.12 Yn ystod 2012, ehangwyd y rhaglen ymhellach i gynnwys colegau Menai (Grŵp Llandrillo Menai), Powys (Grŵp Castell Nedd Port Talbot), Penfro, Pen-y-bont ac Ystrad Mynach (Coleg y Cymoedd). Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £50,000 y flwyddyn hyd at Awst 2015 er mwyn sefydlu Hyrwyddwyr yn y sefydliadau hynny.
- 1.13 Yna, yn Ionawr 2013, ymestynnwyd y prosiect i'r pedwar coleg addysg bellach olaf sef Morgannwg (Coleg y Cymoedd), Merthyr, Gwyr Abertawe a Dewi Sant (swyddog rhan-amser), gyda Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gefnogi'r swyddi tan Awst 2016.
- 1.14 Cytunwyd ar nifer o amcanion gyda phob coleg addysg bellach er mwyn cyflawni nod y prosiect, megis cynyddu nifer y modiwlau a chyrsgiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a sefydlu rhaglen fentora ar gyfer staff y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'n ddyddiau cynnar o safbwynt gweld traweffaith gwaith yr Hyrwyddwyr yn y pedwar coleg olaf i ymuno.

### **Amcanion y prosiect**

- 1.15 Mae'r wybodaeth gefndirol ar y prosiect a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i golegau yn nodi naw amcan penodol. Cyflwynir y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r amcanion hyn. Mae rhai amcanion wedi'u grwpio, ac fe'u cyflwynir fesul themâu, fel y mae'r tabl isod yn dangos.

Tabl 2: Amcanion prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a strwythur yr adroddiad hwn

| Pennod                                         | Amcanion                                                                                                                                                                                                                                                            |
|------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>3. Cynllunio dwyieithrwydd yn strategol</b> | 1. <i>Galluogi'r colegau i ddatblygu strategaeth gadarn a rhoi cynllun ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr.</i>                                                                                                               |
| <b>4. Cynyddu darpariaeth a hybu galw</b>      | 2. <i>Cynyddu nifer y cyrsiau a modiwlau safonol sydd ar gael i ddysgwyr yn y colegau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r continwrm iaith Gymraeg.</i>                                                                                                                 |
|                                                | 3. <i>Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.</i>                                                                                                                                                             |
|                                                | 4. <i>Cynnal a gwella sgiliau Cymraeg y dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu rai dwyieithog.</i>                                                                           |
| <b>5. Y gweithlu</b>                           | 5. <i>Cynyddu nifer staff y coleg a all helpu ac sy'n gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>                                                                                                                                    |
|                                                | 6. <i>Datblygu gallu staff er mwyn i golegau roi mwy o gymorth i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, cyfleoedd dysgu ffurfiol yn ogystal â sefyllfaoedd cymdeithasol anffurfiol fydd yn datblygu sgiliau ieithyddol dwyieithog ac ymwybyddiaeth iaith ymhellach.</i> |
|                                                | 7. <i>Sefydlu a chynnal rhaglen fentora yn y coleg i gefnogi staff y coleg sy'n dilyn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.</i>                                        |
| <b>6. Cydweithio a chynaliadwyedd</b>          | 8. <i>Rhannu arfer da a chynnig cymorth ymarferol yn y colegau ac mewn cydweithrediad â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yn yr ardal, gyda chefnogaeth Sgiliaith.</i>                                                                                         |
|                                                | 9. <i>Dylai'r colegau gynllunio ac ariannu rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd fel rhan annatod o strategaethau cyffredinol y coleg ar ôl i'r arian grant ddod i ben.</i>                                                                                                |

*Ffynhonnell: Prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd 2012/2013 Gwybodaeth Gefndirol, Llywodraeth Cymru*

1.16 Mae amcanion y prosiect yn gyson â'r blaenoriaethau a osodwyd i'r sector gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei lythyr at benaethiaid sefydliadau addysg bellach Cymru ym Mai 2012: nododd y llythyr y dylai sefydliadau barhau 'i gynyddu darpariaeth a niferoedd sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog er mwyn cefnogi ein Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'.<sup>10</sup>

<sup>10</sup> Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru: Llythyr Cylch Gwaith 2012/13–2013/14, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru (29 Mai 2012).

## Partneriaid allweddol

### *ColegauCymru*

1.17 ColegauCymru yw'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli holl sefydliadau addysg bellach Cymru. Yn 2010, lluniodd ColegauCymru Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd mewn Addysg Bellach.<sup>11</sup> Mae tair elfen i'r strategaeth, sef:

- Elfen 1: Datblygu ethos iaith Gymraeg yn y coleg;
- Elfen 2: Datblygu sgiliau cyfathrebu dwyieithog i ychwanegu at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg;
- Elfen 3: Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer dysgwyr ôl-14.

1.18 Mae gwaith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn ganolog i lwyddiant a chynnydd y Strategaeth hon. Mae Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd ColegauCymru yn cefnogi'r colegau drwy gydlyn Rhwydwaith Dwyieithrwydd i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws ystod o feysydd pwnc. Drwy weithio gyda sefydliadau ledled Cymru, mae ColegauCymru mewn sefyllfa i adnabod y potensial ar gyfer cydweithio, gan gynnwys rhannu adnoddau mewn rhai pynciau.

### *Sgiliaith*

1.19 Mae Sgiliaith yn darparu gwasanaeth cefnogol i'r sector addysg bellach ar draws Cymru i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae Sgiliaith, sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, yn darparu hyfforddiant i ddarlithwyr a thiwtoriaid i'w galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Datblygodd Sgiliaith y modiwl MA Methodoleg Addysgu Dwyieithog gyda'r nod o baratoi ymarferwyr ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn sefyllfa ddwyieithog broffesiynol. Cynigir y modiwl dros gyfnod o bum niwrnod mewn ysgolion a cholegau

---

<sup>11</sup> ColegauCymru (2010). *Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd mewn Addysg Bellach*, <http://collegeswales.ac.uk/download.ashx?r=229>

gyda thiwtoriaid Canolfan Sgiliaith yn arwain y ddarpariaeth. Mae Sgiliaith hefyd wedi datblygu'r Twlcit Dwyieithrwydd i'r Tiwtor, sy'n addas i diwtoriaid Cymraeg eu hiaith a'r di-Gymraeg.

### *Fforymau Cyfrwng Cymraeg 14-19*

- 1.20 Sefydlwyd y Fforymau er mwyn hwyluso datblygiad cyrsiau cydweithredol rhwng ysgolion a'i gilydd a rhwng ysgolion a cholegau er mwyn bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar isafswm darpariaeth cyrsiau cyffredinol a chysiau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

### *Comisiynydd y Gymraeg*

- 1.21 Sefydlwyd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn Ebrill 2012 yn unol â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn gweithio i ehangu a chryfhau ymrwymadau iaith Gymraeg sefydliadau drwy fonitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg statudol, gan gynnwys cynlluniau iaith Gymraeg sefydliadau addysg bellach. Bydd y gyfundrefn hon yn cael ei disodli gan safonau maes o law. Noda Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2012-13 nifer o flaenoriaethau a adnabuwyd ar gyfer sefydliadau addysg bellach wrth fonitro cynlluniau iaith Gymraeg, gan gynnwys:

- cryfhau trefniadau casglu data ar allu ieithyddol darpar fyfyrwyr ac annog myfyrwyr i barhau i astudio yn y Gymraeg;
- sicrhau hyfforddiant ieithyddol ar gyfer staff presennol sefydliadau;
- mesur y galw am ddarpariaeth ddwyieithog ymysg myfyrwyr a darpar fyfyrwyr.<sup>12</sup>

---

<sup>12</sup> Comisiynydd y Gymraeg (2013), *Adroddiad Blynyddol 2012-2013*

## *Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

1.22 Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio i gynyddu, datblygu ac ehangu cyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru. Mae Cynllun Strategol y Coleg yn gosod pwyslais ar gydweithio gydag ysgolion a cholegau addysg bellach er mwyn sicrhau bod darpar-fyfyrwyr yn ymwybodol o fanteision sgiliau dwyieithog a'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn sefydliadau addysg uwch.<sup>13</sup> Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn cefnogi partneriaethau rhwng sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach a chyrff eraill er mwyn sicrhau bod modiwlau a chyrsgiau gradd ar gael yn y Gymraeg mewn amrywiaeth o leoliadau.

---

<sup>13</sup> Coleg Cymraeg Cenedlaethol, *Cynllun Strategol 2011/12-2013/14*

## 2 Trosolwg o'r fethodoleg

2.1 Yn dilyn y canllawiau yn y gwahoddiad gwreiddiol i dendro a thrafodaethau cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, seiliwyd methodoleg yr astudiaeth ar gyfuniad o ymchwil desg a gwaith maes, gyda phwyslais ar dystiolaeth ansoddol. Dadansoddwyd hefyd peth data meintiol gan ddefnyddio data'r Cofnod Dysgu Gydol Oes (LLWR) a data pellach a gyflwynwyd gan sefydliadau mewn adroddiadau monitro a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru (adroddiadau monitro). Cyfrannodd pob un o'r 13 o golegau addysg bellach yng Nghymru i'r astudiaeth hon. Ceir manylion pellach am wahanol gamau'r astudiaeth isod.

### Cyfarfod dechreuol

2.2 Cynhaliwyd cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau nodau ac amcanion y prosiect. Rhannwyd gwybodaeth gefndirol ar y prosiect a manylion cyswllt yr Hyrwyddwyr ac uwch reolwyr y colegau. Cafwyd trafodaeth ar rai o brif gwestiynau ymchwil a themâu'r astudiaeth, gan adnabod y canlynol fel materion i'w hystyried:

- A yw'r prosiect wedi cyrraedd yr amcanion (a nodir uchod yn Nhabl 2)? Pa rwystrau a wynebwyd?
  - Oes cynnydd wedi bod yn nifer (ac ansawdd) cyrsiau/modiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog?
  - Cynaliadwyedd: a yw colegau yn ystyried sut maent am gynnal swyddogaeth yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd pan ddaw'r grant i ben?
- Oes proffil uwch i'r Gymraeg ac i gyfleodd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg?

- A yw colegau yn ystyried sgiliau ieithyddol wrth benodi staff er mwyn cynnal ac ehangu'r ddarpariaeth?

## **Ymchwil desg**

- 2.3 Adolygwyd sampl o bump o gynlluniau strategol sefydliadau addysg bellach er mwyn ystyried y pwyslais a roddir yn y dogfennau hynny ar gamau i ddatblygu addysg bellach cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ystyriwyd a oedd cyfeiriadau at rôl yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn y cynlluniau strategol hyn.
- 2.4 Fel rhan o'r broses ymchwil desg, adolygwyd adroddiadau monitro 13 o golegau er mwyn adnabod cwestiynau pellach i holi Hyrwyddwyr ac uwch reolwyr sefydliadau yn ystod y gwaith maes. Rhannodd Llywodraeth Cymru gyfres o ddogfennau mewnol yn ystod y broses ymchwil desg, yn cynnwys y canllawiau a roddwyd i golegau sy'n derbyn grant fel rhan o'r prosiect.
- 2.5 Adolygwyd Strategaeth Ddwieithrwydd Colegau Cymru a'r data eilaidd mwyaf diweddar gan gynnwys data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

## **Gwaith maes**

- 2.6 Cynhaliwyd ymweliadau â 13 o golegau gan gwblhau cyfweiliadau gyda 35 o unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd (13), rheolwyr sefydliadau neu gyfarwyddwyr (9) a thiwtoriaid (13). Lluniwyd canllaw holi i'w ddefnyddio yn ystod y cyfweiliadau lled-strwythuredig hyn (gweler Atodiad A). Mae rhestr lawn o'r unigolion a gyfrannodd at yr astudiaeth yn Atodiad B. Cafwyd trafodaethau gyda chwe grŵp o ddysgwyr mewn pump o golegau, gyda chyfanswm o 33 o ddysgwyr yn cyfrannu.
- 2.7 Cwblhawyd cyfweiliadau ffôn gyda thri Hyrwyddwr a oedd yn newydd i'w swyddi (ers 2013). Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn i drafod canlyniadau cychwynnol yr astudiaeth mewn cyfarfod gyda'r holl Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd i roi cyfle iddynt gynnig adborth.



2.8 Bu cyfweiliadau gyda swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, cynrychiolydd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a thri o gynrychiolwyr o Golegau Cymru.

### 3 Cynllunio dwyieithrwydd yn strategol

- 3.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â chynllunio strategol ar lefel coleg i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae hyn yn cyfateb i Amcan 1 y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd:

**Amcan 1:**  
*Galluogi'r colegau i ddatblygu strategaeth gadarn a rhoi cynllun ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr.*

- 3.2 Mae strwythur y bennod yn gosod patrwm ar gyfer y penodau sy'n dilyn. Yn gyntaf, mae'n crynhoi'r dystiolaeth ar y cynnydd a wnaed gan sefydliadau ynghyd ag unrhyw draweffeithiau a welwyd; yn ail, ystyrir rhai o'r rhwystrau a adroddwyd; yn olaf, nodir canfyddiadau cyffredinol ac unrhyw wersi at y dyfodol.
- 3.3 Mae'r bennod yn ystyried y gwahaniaethau o ran 'statws' yr Hyrwyddwyr o fewn y colegau, sy'n codi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd gwahanol fodelau. Pa mor bwysig yw lleoliad y rôl o fewn strwythur rheoli'r coleg? Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth a roddir i Hyrwyddwyr gan reolwyr strategol neu grwpiau llywio ar lefel coleg?
- 3.4 Ystyrir y dulliau o fesur cynnydd neu draweffaith yn erbyn Amcan 1 uchod. Pa ddatblygiadau a welwyd ers penodi'r Hyrwyddwyr yn y gwahanol golegau sy'n dangos bod strategaethau sefydliadol a chynlluniau gwaith mewn lle i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?
- 3.5 Mae sawl ffactor i'w cadw mewn cof wrth ystyried y dystiolaeth:
- Mae'r prosiect wedi'i gyflwyno'n raddol ar draws y colegau ac felly mae'r broses o gynllunio'n strategol yn fwy datblygedig ac yn fwy aeddfed mewn rhai colegau nag eraill;
  - Mae pob coleg yn wynebu heriau gwahanol yn seiliedig ar natur ieithyddol y myfyrwyr, sgiliau iaith staff yn y colegau a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd eisoes yn bodoli neu nad yw'n

bodoli. O'r herwydd, nid oes gwaelodlin gyffredin hanesyddol ar draws y colegau o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg;

- Rhaid cydnabod yr anhawster wrth geisio priodoli unrhyw newidiadau a welir i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y colegau i ddylanwad yr Hyrwyddwyr yn uniongyrchol. Mae ystod o ffactorau ac amodau eraill (megis cynlluniau strategol sefydliadau; sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr; a thraweffaith rhaglenni hyfforddiant) yn dylanwadu ar ddatblygiadau.

## Modelau

### *Amrywiaethau o ran 'lleoliad' a model yr Hyrwyddwyr*

- 3.6 Mae Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn gweithredu mewn gwahanol ffyrdd, ac ar wahanol lefelau. Mae eu cyswllt a'u dylanwad gydag uwch dimau rheoli sefydliadau yn amrywio, yn dibynnu ar natur y swydd a'u 'sefyllfa' yng nghyd-destun strwythur rheolaethol y coleg. Tra bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob Hyrwyddwr yn cael ei benodi ar lefel 'uwch diwtor' (o leiaf) ceir amrywiaethau mawr serch hynny o ran eu cyfrifoldebau a'u dylanwad strategol.
- 3.7 Mae lleiafrif o'r Hyrwyddwyr yn gweithredu ar lefel cyfarwyddwyr yn eu sefydliadau, gyda chyfrifoldeb dros lunio a goruchwyllo cynlluniau i gefnogi'r Gymraeg a dwyieithrwydd ar draws y coleg. Mae Hyrwyddwyr eraill yn gweithredu ar lefel sydd yn cyfateb i rôl uwch-ddarlithydd neu ddarlithydd, weithiau mewn ffyrdd mwy annibynnol, ac yn atebol i uwch dimau eu sefydliadau.
- 3.8 Mae'r cyswllt agos rhwng Hyrwyddwyr, cyfarwyddwyr â chyfrifoldeb am y Gymraeg a phenaethiaid adrannau wedi bod yn ffactor bwysig mewn nifer o'r colegau wrth iddynt gynllunio i gynyddu darpariaeth.

*'Working directly with managers more consistently on issues to promote bilingualism and looking at the more strategic developments in the college has focused us a lot more. It is something which we always wanted to achieve but this project has driven things forward.'* (Uwch reolwr, coleg addysg bellach)

- 3.9 Nododd rhai Hyrwyddwyr eu bod yn gweithio fel aelodau o dimau neu bwyllgorau dwyieithrwydd sy'n adnabod cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ac yn cydlynu gwaith ar draws adrannau'r coleg. Dengys trafodaethau gyda'r colegau bod y rhan fwyaf o Hyrwyddwyr yn gweithredu gyda grŵp llywio neu dîm o'u cwrdd. Mae cefnogaeth carfan ehangach o unigolion, ym marn yr Hyrwyddwyr hynny, yn hollbwysig ac yn cynyddu proffil a chodi ymwybyddiaeth o'u gwaith.

*'Mae'n bwysig bod pobl eraill yn y coleg yn ymddwyn fel "ambassadors" i gefnogi'n gwaith ni'. (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)*

- 3.10 Mewn lleiafrif o achosion, adroddwyd bod Hyrwyddwyr yn gweithredu fel unigolion o fewn eu sefydliad ac yn gweithio mewn ffordd 'ynysig' wrth geisio cefnogi darpariaeth Gymraeg.
- 3.11 Yn ei hanfod, cefnogi a hwyluso datblygiadau strategol yw rôl Hyrwyddwyr. Serch hynny mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yna bwyslais ar ddarparu tasgau mwy ymarferol mewn rhai achosion, gyda lleiafrif bach o'r Hyrwyddwyr yn nodi eu bod yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser yn addysgu ac yn darparu cyrsiau iaith i ymarferwyr, er y nodwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod cyfweiliadau â hwy na ddylai fod gan Hyrwyddwyr amserlen addysgu.

*'Yn y coleg yma dywedon nhw [uwch reolwyr] reit ar y dechrau bod angen rhywun sy'n gallu dysgu yn ogystal â sgrifennu adroddiadau a chreu adnoddau.' (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)*

- 3.12 Ymddengys bod gan yr Hyrwyddwyr, ar y cyfan, dipyn o ymreolaeth i weithredu fel y maent yn ystyried orau wrth ymateb i'r anghenion neu'r cyfleoedd a ddaw i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'r lefel o annibyniaeth yn amrywio ar draws y gwahanol golegau, ac yn adlewyrchu lefel y rôl, perthynas yr Hyrwyddwr gyda'r pennaeth/is-bennaeth ac, i raddau, rôl flaenorol yr Hyrwyddwr cyn ymgymryd â'r swydd.
- 3.13 Gwerthfawroga uwch-reolwyr sefydliadau yr hyblygrwydd, y cymorth a'r gefnogaeth a ddangoswyd gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau wrth sefydlu'r rôl.

### *Targedau yn gatalydd ar gyfer cynllunio strategol*

3.14 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys targedau i gynyddu'r gweithgareddau addysg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach. Er mwyn cefnogi'r targedau hyn mae sefydliadau yn cytuno ar dargedau eu hunain ar gyfer cynyddu nifer y modiwlau cyfrwng Cymraeg a ddarperir ac yn adrodd ar y rhain yn yr adroddiadau monitro a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Nodir targedau hefyd ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau neu fodiwlau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae sefydliadau yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn yn eu hadroddiadau monitro i Lywodraeth Cymru. Gweler Pennod 4 am drafodaeth bellach ar y deilliannau.

3.15 Nodwyd bod bodolaeth y targedau eu hunain wedi bod yn arf i'r Hyrwyddwyr wrth annog colegau i gynllunio yn fwy strategol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er bod y data monitro yn anghyson mewn mannau (gweler Pennod 4) mae'r targedau wedi gyrru datblygiadau gan orfodi colegau i fesur cynnydd.

*'Mae gallu troi at y pennaeth a dweud "mae gan y coleg darged i gyflawni x yn ystod y flwyddyn nesaf" yn sicr yn arf. Heb fy rôl i, byddai'r pwysedd neu'r cymhelliant yna ddim yn bodoli ar lefel sefydliadol.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

### **Tystiolaeth o effaith**

#### *Enghreifftiau o gynnydd a gweithredoedd o dan Amcan 1*

3.16 Gwelir Amcan 1 fel blaenoriaeth allweddol ond ymddengys nad oes dehongliad cyffredin o'r hyn a olygir wrth 'gynllunio yn strategol'. Serch hynny, mae'r astudiaeth wedi canfod tystiolaeth o wahanol ddatblygiadau sy'n dangos bod colegau, mewn nifer o achosion, yn gwella eu cynllunio strategol wrth gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae hyn yn gyson ag argymhelliaid yn y

gwerthusiad o'r cynllun peilot yn 2008 a nododd y dylai sefydliadau ddatblygu darpariaeth newydd mewn ffordd strategol a chydlynus gan flaenoriaethu meysydd lle mae galw wedi'i adnabod (Argymhelliad 3 yn adroddiad gwerthuso 2008, tud. 35).<sup>14</sup> Ar y cyfan, serch hynny, nid oes tystiolaeth glir yn awgrymu bod yr argymhelliad hwn yn cael ei weithredu ar draws y sector. Cynigir yr enghreifftiau mwyaf cyffredin isod:

- Colegau wedi sefydlu grwpiau strategol i adnabod cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm (enghraifft isod):

*'Fel rhan o'n cynllun datblygu yn y coleg, sefydlodd y Pennaeth 'Tîm Cymraeg' gyda'r nod o ddatblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm i gynnig cyfleoedd addysgol i fyfyrwyr yn y Gymraeg. Mae'r fenter hon yn tanlinellu pwysigrwydd cynllunio gofalus. Rydym wedi adnabod rhai pynciau lle gwelwyd tueddiadau diddorol o ran niferoedd y siaradwyr Cymraeg sy'n cofrestru ar gyrsiau, gydag Amaethyddiaeth yn un enghraifft. Yn dilyn hwn, eleni am y tro cyntaf rydym wedi creu cwrs Amaeth lefel 3 cyfrwng Cymraeg ac fe benodwyd darlithydd llawn amser ychwanegol er mwyn darparu'r cwrs. Rydym wedi gwneud rhywbeth tebyg ar gyfer Chwaraeon gan apwyntio aelodau newydd o staff sy'n siaradwyr Cymraeg. Y bwriad yw sicrhau bod sgiliau iaith gan staff sy'n adlewyrchu'r galw a'r meysydd yr ydym yn blaenoriaethu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy benodi staff newydd, gwelwyd cynnydd o 20 y cant yn nifer staff y coleg sy'n siaradwyr Cymraeg - a hynny drwy recriwtio siaradwyr Cymraeg yn fwriadol.'*  
(Cyfarwyddwr Strategol, coleg addysg bellach)

- Gweithio gydag adrannau Adnoddau Dynol colegau a sicrhau bod y geiriad *'mae'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol'* wedi'i gynnwys mewn manylebau swyddi a hysbysebiri;
- Cynnwys gwybodaeth neu adrannau ar *'Ddwyieithrwydd'*/*'Darpariaeth cyfrwng Cymraeg'* mewn prospectws ac ar wefannau sefydliadau. Ceir enghreifftiau lle mae colegau yn hysbysebu'r cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; y manteision o barhau gydag addysg neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg; y cymorth sydd ar gael i gefnogi dysgwyr dwyieithog; a chyfleoedd cymdeithasol a gefnogir gan y coleg;

<sup>14</sup> Arad Research ar ran Llywodraeth Cymru. *Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* (Hydref 2008).

- Cydweithio gydag ysgolion i sicrhau dilyniant ieithyddol ac i gynllunio darpariaeth er mwyn adeiladu ar ddarpariaeth yn y sector statudol;
- Mae ambell goleg yn cynnwys polisi dwyieithrwydd fel rhan o'u Datganiad o Genhadaeth;
- Cyfeiriodd Hyrwyddwyr at systemau o osod targedau mewnol i adrannau ar ddwyieithrwydd gyda chyfadrannau yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau yma; i gefnogi'r broses, cynhelir archwiliadau mewnol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws adrannau unigol.

3.17 Cafwyd tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn sgil buddsoddiad ychwanegol a wnaed gan golegau i gefnogi datblygiadau. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad mewn arian yn ogystal â'r amser a roddir gan arweinydd strategol i gefnogi datblygiadau newydd. Ar lefel strategol, mae'r prosiect wedi ysgogi nifer o sefydliadau i greu pwyllgorau mewnol i gefnogi'r Gymraeg, gan geisio sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u cynllunio a'u cydlynu. Mewn enghraifft arall, nododd un coleg ei fod wedi penodi tiwtoriaid dwyieithog i ddarparu unedau *laith ar Waith* (unedau gofal cwsmer sy'n cydnabod sgiliau dwyieithog mewn pynciau galwedigaethol) gyda buddsoddiad ariannol ychwanegol gan y coleg.<sup>15</sup> Ar lefel ymarferol, adroddodd Hyrwyddwyr bod colegau wedi gwneud ymdrech i sicrhau bod yr iaith yn fwy gweledol, drwy gyfieithu posteri ac arwyddion.

3.18 Tanlinellwyd pwysigrwydd cydweithio gyda darparwyr eraill wrth gynllunio darpariaeth. Nododd yr holl golegau bod cynnydd wedi bod wrth sefydlu partneriaethau gydag ysgolion a sefydliadau eraill i gydweithio ar ddatblygiadau (ceir manylion pellach ar yr agwedd hon ym Mhennod 6).

---

<sup>15</sup> Cymhwyster yw *laith ar Waith* sy'n canolbwyntio ar gefnogi sgiliau Cymraeg wrth gynnig gwasanaeth cwsmer yn y gweithle. Gellir ei gyflwyno fel rhan o ystod o wahanol gyrsiau ac mae ar gael ar Fynediad 3, Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3.

## Rhwystrau a wynebwyd

- 3.19 Gofynnwyd i gyfweleion am unrhyw rwystrau a wynebwyd wrth ddatblygu strategaethau cadarn i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Diffyg amser oedd y sylw mwyaf cyffredin, gyda mwyafrif yr Hyrwyddwyr a rheolwyr yn nodi ei bod hi'n ddyddiau cynnar. Nododd sawl un bod angen cynllunio tymor hir i newid ethos y coleg, codi ymwybyddiaeth ymysg staff a dysgwyr o'r potensial i ddatblygu darpariaeth a sicrhau bod y gweithlu mewn sefyllfa i fedru darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Gwelir amrywiaeth eang o safbwynt 'mannau cychwyn' sefydliadau addysg bellach: mae'r dasg o ddatblygu strategaethau yn arbennig o heriol yn y colegau hynny lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn isel iawn:

*'Mae'n rhaid i ni fod yn realistig yn ein cynlluniau a'n targedau. Mae tipyn o waith newid agweddau yma yn y coleg ac mae hynny'n frwydr barhaus gyda rhai adrannau.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

- 3.20 Cyfeiriodd sawl un at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, er dylid cydnabod bod disgwyl i golegau ddefnyddio'u cyllidebau craidd i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Gan gydnabod pwysigrwydd a gwerth y grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Hyrwyddwyr, nodwyd bod gwireddu'r amcan o gynyddu darpariaeth yn gofyn am ymrwymiad ariannol sylweddol ar ran colegau.

*'Yn syml, bydd angen tiwtoriaid ychwanegol os ydym ni am gyflwyno darpariaeth newydd. Bydd angen mwy o fuddsoddiad gan y coleg neu gan Lywodraeth Cymru i wireddu hyn. Mae arian y Rhwydwaith 14-19 yn ffynhonnell allweddol i nifer o golegau.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

- 3.21 Serch hynny, gwnaethpwyd yn glir yn y wybodaeth gefndirol a ddosbarthwyd i golegau bod disgwyl iddynt 'gynllunio ac ariannu rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd fel rhan annatod o strategaethau cyffredinol y coleg ar ôl i'r arian grant ddod i ben'. Yn hynny o beth, roedd



sefydliadau yn ymwybodol y byddai gofyn am fuddsoddiad tymor hir ychwanegol ganddynt i gefnogi a chynnal gwaith yr Hyrwyddwyr gan ddefnyddio eu harian craidd i ddatblygu a chynnal y ddarpariaeth.

- 3.22 Awgrymodd Hyrwyddwyr bod natur y rôl - yn enwedig lle'r oedd tuedd i'r Hyrwyddwyr weithio yn fwy annibynnol o fewn eu sefydliadau - yn cyflwyno heriau.

*'Mae'r amryw gyfrifoldebau yn golygu bod Hyrwyddwyr yn cael eu tynnu i nifer o wahanol gyfeiriadau. Mae'n cwmpasu gwaith ar sawl lefel – tasgau gweinyddol, cefnogi tiwtoriaid, a cheisio bod yn arbenigwr ar bopeth bron! Mae weithiau'n teimlo fel ein bod yn ymlwybro tra bod y coleg yn parhau i wneud penderfyniadau mawr heb ystyried y Gymraeg.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

- 3.23 Teimla rhai Hyrwyddwyr eu bod yn ceisio arwain ar gynllunio darpariaeth yn strategol heb fod yna gefnogaeth ddigonol gan bartneriaid allweddol yn lleol nac ar lefel genedlaethol. Mewn rhai achosion, mae'r gystadleuaeth rhwng colegau ac ysgolion uwchradd yn parhau, sy'n medru bod yn rhwystr i ddatblygiadau newydd. Nodwyd hefyd y gallai Llywodraeth Cymru a Chynghorau Sgiliau Sector gynnig gwell gorolwg ac arweiniad strategol mewn rhai meysydd, yn enwedig wrth hyrwyddo darpariaeth newydd mewn pynciau blaenoriaeth neu feysydd o arwyddocâd strategol.

### **Gwahanol fodelau o gynllunio darpariaeth**

- 3.24 Mae'r gwahanol fodelau o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a welir ar draws sefydliadau yn ddibynnol ar ystod o ffactorau: nododd uwch reolwyr eu bod yn falch bod y prosiect yn cynnig hyblygrwydd i golegau greu strwythur sy'n addas iddynt.
- 3.25 Tra bod yr hyblygrwydd yma yn bwysig yn llygad y sefydliadau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gallu Hyrwyddwyr i gyfrannu at greu *'strategaeth gadarn a rhoi cynllun ar waith i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog'* (Amcan 1) yn dibynnu i ba raddau y

mae'r rôl wedi'i 'hintegreiddio' fel rhan o brif waith a phrosesau cynllunio'r coleg.

3.26 Gwelir dull mwy integredig o gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog pan fo:

- Cyswllt clir rhwng yr Hyrwyddwyr a'r uwch dîm rheoli, yn aml gyda'r Hyrwyddwyr yn atebol yn uniongyrchol i gyfarwyddwr gyda chyfrifoldeb strategol dros yr iaith Gymraeg neu ddwyieithrwydd;
- Hyrwyddwyr yn gweithio fel rhan o dîm neu bwyllgor mewnol ehangach i gefnogi'r ddarpariaeth Cymraeg, a bod cynrychiolwyr gwahanol gyfadrannau ar y pwyllgorau hyn;
- Cyfrifoldeb am hybu dwyieithrwydd yn cael ei dderbyn gan bob cyfadrannau ar draws y coleg - gyda chyfadrannau unigol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu dwyieithrwydd a bod system fewnol ar gyfer adrodd ar gynnydd;
- Perthynas dda wedi'i datblygu gyda phartneriaid allweddol eraill, e.e. llywodraethwyr y coleg;
- Ymwybyddiaeth dda ymysg staff ar draws adrannau'r coleg o'r gefnogaeth y mae'r Hyrwyddwyr yn ei chynnig.

3.27 Pa bynnag fodel a gyflwynir yn y gwahanol golegau ar gyfer gweithredu'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd, dengys y dystiolaeth pa mor bwysig yw'r gefnogaeth gan benaethiaid ac uwch reolwyr sefydliadau i waith yr Hyrwyddwyr. Cyfeiriodd un o argymhellion y gwerthusiad o'r prosiect peilot yn 2008 at y mater hwn, gan bwysleisio'r angen am gyd-berthynas rhwng uwch dimau rheoli sefydliadau, yr Hyrwyddwyr a chynrychiolwyr ar draws cyfadrannau'r colegau (Argymhelliad 2 yn adroddiad gwerthuso 2008, tud 35).<sup>16</sup>

3.28 Ymddengys bod llai o gynnydd wrth gynllunio'n strategol pan fo Hyrwyddwyr yn gyfrifol am weithredu ystod eang o dasgau yn unigol, heb gymaint o gymorth a heb fedru dirprwyo cyfrifoldebau i

---

<sup>16</sup> Arad Research ar ran Llywodraeth Cymru. *Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* (Hydref 2008).

gydweithwyr. Cafwyd enghreifftiau i awgrymu bod lleiafrif o Hyrwyddwyr yn treulio cyfran helaeth o'u hamser yn cyfieithu (adnoddau dysgu, deunyddiau marchnata) a darparu gwersi iaith, a bod y cyswllt gyda chyfarwyddwyr y coleg yn gymharol wan.

## 4 Cynyddu darpariaeth a hybu galw

- 4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas ag ymdrechion colegau i gynyddu a datblygu darpariaeth newydd, a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar sawl ffynhonnell, gan gynnwys: y wybodaeth a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru yn yr adroddiadau monitro blynyddol; data LLWR; a'r dystiolaeth bellach a gasglwyd yn ystod ymweliadau i golegau. Dechreuwn drwy ystyried ansawdd a chynnwys y data sydd ar gael i fesur cynnydd yn erbyn Amcanion 2 a 3 cyn trafod rhai o'r materion a ddaeth i'r amlwg wrth drafod yr amcanion hyn gyda cholegau.

**Amcan 2:**

*Cynyddu nifer y cyrsiau a modiwlau safonol sydd ar gael i ddysgwyr yn y colegau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r continwmm iaith Gymraeg.*

**Amcan 3:**

*Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.*

- 4.2 Mae'r bennod hon hefyd yn cyflwyno a thrafod y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas ag Amcan 4:

**Amcan 4:**

*Cynnal a gwella sgiliau Cymraeg y dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu rai dwyieithog.*

### Ffynonellau data

- 4.3 Mae data ar lefel Cymru ar addysgu ôl-16 mewn Addysg Bellach yn cael ei gasglu drwy LLWR. Cofnodir unedau neu fodiwlau lle mae dros hanner yr adnoddau addysgu wedi eu darparu yn yr iaith Gymraeg yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar LLWR. Mae 'adnoddau addysgu' yn cynnwys nodiadau, cyflwyniadau PowerPoint, llyfrau addysgu/taflenni, cyflwyniadau bwrdd gwyn a therminoleg. Gelwir y maes hwn ar LLWR yn LA26. Defnyddir y data gan Lywodraeth Cymru

fel rhan o'r broses o benderfynu ar drefniadau cyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Cesglir data ar niferoedd yr unedau a modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr adroddiadau monitro a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru yn ogystal. Mae'r bennod hon yn cyflwyno data o'r ddwy ffynhonnell.

- 4.4 Mae darpariaeth sy'n cyrraedd y trothwy o hanner yr adnoddau addysgu wedi eu darparu yn yr iaith Gymraeg yn gymwys i hawlio cyllid ychwanegol ar gyfer addysg ddwyieithog. Golyga hyn nad yw unedau neu fodiwlau lle mae llai na hanner yr adnoddau ar gael yn y Gymraeg yn cael eu cyfrif fel cyrsiau Cymraeg neu ddwyieithog. Nododd nifer o gynrychiolwyr colegau addysg bellach bod hyn yn dangos nad yw'r system yn caniatáu adlewyrchiad cwbl gywir a chynhwysfawr o hyd a lled darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- 4.5 Adolygwyd maes LA26, lle cofnodir darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, o fewn y LLWR yn ystod cyfnod yr astudiaeth hon gyda'r bwriad iddo adlewyrchu'n well y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd yn y sector addysg bellach. Mae'r diweddariad hwn yn weithredol ers mis Medi 2014.

## **Cynnydd yn erbyn Amcan 2: nifer y cyrsiau a'r modiwlau**

- 4.6 Mae adroddiadau monitro naw allan o'r 13 coleg<sup>17</sup> sydd â Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn cynnwys gwybodaeth ar nifer y modiwlau neu unedau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr yn 2012-13. Cofnodwyd yn adroddiadau monitro 2012-13 bod cyfanswm o 77 o fodiwlau neu unedau ar gael yn y colegau hyn. Fodd bynnag, mae'r data a gyflwynir gan sefydliadau ar nifer y modiwlau a chysiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn anghyson ac yn seiliedig ar ddulliau adrodd amrywiol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd adnabod tueddiadau neu ddod i gasgliadau cadarn ar gynnydd yn erbyn Amcan 2.

---

<sup>17</sup> Mae'r 13 coleg yma yn cyfeirio at y sefydliadau lle'r oedd Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn lle cyn 2013. Cyfrifir colegau unigol Grŵp Llandrillo-Menai ar wahân gan i'r colegau ymuno â'r prosiect mewn blynyddoedd gwahanol.

- 4.7 Nododd nifer o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn cyfweiliadau eu bod yn wynebu anawsterau wrth adnabod modiwlau a chysiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd eisoes yn bodoli. Eglurwyd nad oedd cydnabyddiaeth i ddarpariaeth Gymraeg pan fo'n rhan o'r cyrsiau hynny lle na chyrhaeddir y trothwy o hanner cant y cant o adnoddau Cymraeg (gweler 4.3 uchod). Ceir peth dryswch hefyd mewn rhai sefydliadau gan fod amharodrwydd i ddisgrifio cwrs fel un dwyieithog gan nad yw'r adrannau yn hyderus y byddent yn gallu profi bod hanner yr adnoddau ar gael yn ddwyieithog.
- 4.8 Nododd nifer o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd bod adnabod a chofnodi defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn cyflwyno her:

*'[Rydym] yn y broses o ddatblygu system i fonitro cynnydd datblygiadau modiwlau a chysiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn ein galluogi i gael darlun cyflawn erbyn Adroddiad Blynyddol o'r cynnydd. Ymddengys mai asesu cyfrwng Cymraeg yw'r maen tramgwydd a bod llawer iawn o waith anffurfiol yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni yn y broses o fapio hyn er mwyn cael darlun cyflawn.'* (Adroddiad monitro.)

### **Cynnydd yn erbyn Amcan 3: nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog**

- 4.9 Gosoda Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru darged i gynyddu'r ganran o weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o 4.7 y cant yn 2007/08 i 10 y cant erbyn 2020.<sup>18</sup> Mae 'gweithgareddau dysgu' yn cyfri pob cwrs a ddilynnir gan fyfyrwyr yn unigol ac felly nid yw'n cyfateb i nifer y myfyrwyr. Fodd bynnag, dyma'r mesur gorau sydd ar gael ar lefel genedlaethol er mwyn mesur cynnydd mewn perthynas â'r amcan hwn.

<sup>18</sup> Mae'r Strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu'r gweithgareddau addysg cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau AB o 0.2% (gwaelodlin 2007/08) i 1% erbyn 2015 a 2% erbyn 2020. Gosodwyd targed hefyd i gynyddu'r gweithgareddau dwyieithog o 4.5% (gwaelodlin 2007/08) i 6% erbyn 2015 ac 8% erbyn 2020. Mae Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth yn adrodd ar gynnydd ar sail y targedau hyn ar y cyd (h.y. gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog).

4.10 Mae data ar lefel Cymru ar addysgu ôl-16 mewn addysg bellach<sup>19</sup> yn dangos cynnydd yn nifer a chanran y gweithgareddau dysgu a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog o 15,765 o weithgareddau dysgu (4.8 y cant o'r holl weithgareddau dysgu) yn 2007/08 i 21,325 (6.7 y cant o'r holl weithgareddau dysgu) yn 2011/12. Mae Tabl 3 isod yn dangos nifer o batrymau o fewn y ffigyrau hyn:

- Amrywiaeth yn y data rhwng 2007/08 a 2011/12, gyda'r nifer o weithgareddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu o 700 yn 2007/8 (0.2 y cant o'r holl weithgareddau dysgu) i 2,300 (0.7 y cant) yn 2010/11, cyn gostwng i 970 (0.3 y cant) yn 2011/12.
- Cynnydd sylweddol o 35 y cant yn nifer y gweithgareddau dysgu dwyieithog o 15,065 (4.6 y cant o'r holl weithgareddau dysgu) yn 2007/08 i 20,360 (6.4 y cant) yn 2011/12.
- Cynnydd o 2,720 (neu 15 y cant) yn nifer y gweithgareddau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn y flwyddyn ddiweddaraf (h.y. rhwng 2010/11 a 2011/12)

*Tabl 3. Nifer a chanran y gweithgareddau dysgu a ddarperir yn Gymraeg ac yn ddwyieithog mewn colegau addysg bellach*

|         | Nifer a chanran y gweithgareddau dysgu wedi'u darparu: |        |                |        |                                  |        | Cyfanswm |
|---------|--------------------------------------------------------|--------|----------------|--------|----------------------------------|--------|----------|
|         | Drwy'r Gymraeg yn unig                                 |        | Yn ddwyieithog |        | Drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog |        |          |
|         | Nifer                                                  | Canran | Nifer          | Canran | Nifer                            | Canran |          |
| 2007/08 | 700                                                    | 0.2%   | 15,065         | 4.6%   | 15,765                           | 4.8%   | 328,135  |
| 2008/09 | 1,040                                                  | 0.3%   | 19,265         | 5.9%   | 20,305                           | 6.2%   | 328,405  |
| 2009/10 | 1,410                                                  | 0.4%   | 19,995         | 5.8%   | 21,405                           | 6.2%   | 345,060  |
| 2010/11 | 2,300                                                  | 0.7%   | 16,305         | 5.0%   | 18,605                           | 5.7%   | 324,110  |
| 2011/12 | 970                                                    | 0.3%   | 20,360         | 6.4%   | 21,325                           | 6.7%   | 316,420  |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes (LLWR)

4.11 O ystyried y data yn Nhabl 3, gwelir bod cynnydd yng nghanran y gweithgareddau dysgu a ddarperir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog

<sup>19</sup>Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

rhwng 2010/11 a 2011/12, tra bod cyfanswm y gweithgareddau wedi gostwng. Mae hyn yn ganlyniad i'r cwmp cyffredinol a welir yn nifer y gweithgareddau dysgu (ym mhob cyfrwng) ar draws y sector addysg bellach dros y cyfnod hwn.

#### *Data ar lefel colegau unigol*

4.12 Mae'r adroddiadau monitro yn cyflwyno gwybodaeth ar nifer y myfyrwyr sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob coleg. Cyflwynodd colegau wybodaeth mewn ffyrdd gwahanol. Adroddodd naw allan o'r 13 coleg wybodaeth ar nifer y dysgwyr sydd wedi eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog rhwng 2010/11 a 2012/13, tra adroddodd pedwar coleg ar fesurau eraill, er enghraifft canran cofrestriadau ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a nifer y dysgwyr yn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae hyn yn enghraifft o anghysondeb yn y ffordd y mae colegau yn casglu a chyflwyno data yn eu hadroddiadau monitro.

4.13 Nododd y naw coleg hyn eu bod wedi asesu cyfanswm o 3,154 o fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2012/13. Darparodd wyth allan o'r naw coleg ddata rhwng 2010/11 a 2012/13, a dangosodd hyn gynnydd o 68 y cant rhwng 2010/11 (1,754 o fyfyrwyr ar draws yr wyth coleg) a 2012/13 (2,951 o fyfyrwyr ar draws yr wyth coleg).

#### *Ennyn diddordeb myfyrwyr*

4.14 Mewn cyfweiliadau ag ymarferwyr, daeth yn amlwg bod nifer o ddulliau i gynyddu darpariaeth yn cael eu treialu gan golegau y tu hwnt i greu uned neu fodiwl cyfrwng Cymraeg newydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Creu grŵpiau cofrestru yn yr iaith Gymraeg;
- Cynnig *laith ar Waith* fel rhan o gyrsiau cyfrwng Saesneg;
- Cynnig gwaith prosiect neu fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg dan ofal tiwtor sy'n siarad Cymraeg mewn cwrs ehangach cyfrwng Saesneg;
- Cynnig profiadau e.e. gwaith maes neu brofiad gwaith mewn lleoliadau lle y defnyddir y Gymraeg;



- Cydweithio ag ysgolion i greu darpariaeth rhan amser (e.e. un diwrnod yr wythnos) i ddysgwyr 14-16 oed;
- Gwersi Cymraeg ychwanegol;
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn cynnig cefnogaeth dysgu;
- Gwneud asesiadau yn y Gymraeg.

4.15 Roedd dylanwad *laith ar Waith* ar gynnydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn nifer o golegau yn amlwg o'r gwaith maes a'r ffurflenni monitro. Nododd cyfran helaeth o'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mai *laith ar Waith* oedd y prif ffactor a oedd yn gyrru'r cynnydd yn nifer y gweithgareddau dysgu a'r modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

*'Ni'n canolbwyntio ar laith ar Waith eleni – mae'n help gyda'r targed.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

4.16 Nododd un aelod o dîm rheoli sefydliad fod darparu Safon Uwch yn y Gymraeg yn gallu chwarae rôl wrth gyrraedd rhai o amcanion eraill y cynllun. Nododd fod hyn yn bwysig er gwaetha'r ffaith nad oedd yn cyfrannu tuag at gyrraedd targedau'r cynllun.

*'Dyw Lefel A ddim yn cael ei gynnwys yn LA26 [diffiniad darpariaeth Cymraeg Llywodraeth Cymru], ond mae gan gynyddu darpariaeth Lefel A rôl i'w chwarae mewn datblygu ethos [iaith Gymraeg] y coleg, gan ddod mewn â mwy o fyfyrwyr sydd â sgiliau Cymraeg.'* (Aelod o uwch-dîm rheoli coleg)

4.17 Law yn llaw â'r dasg o gynyddu darpariaeth ceir ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r iaith ymysg myfyrwyr, ac mae'r Hyrwyddwyr yn ystyried yr ymdrechion hyn yn gamau cyntaf hanfodol ar y llwybr o ennyn diddordeb myfyrwyr mewn darpariaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Gofynnir i golegau nodi nifer y gweithgareddau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a chymdeithasol a drefnir yn ogystal â nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.

4.18 O ran natur y cynnig i fyfyrwyr y tu hwnt i unedau a chysiau penodol, mae ystod eang o weithgareddau a chefnogaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal cyfweiliadau mynediad yn y Gymraeg; taflenni ar y

cymorth sydd ar gael wrth bontio o ysgolion cyfrwng Cymraeg i addysg bellach; geirfâu; clybiau; digwyddiadau, tripiâu a gweithgareddau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen a stondinau mewn ffeiriau. Nododd nifer o'r Hyrwyddwyr eu bod yn cyfeirio at y *Llawlyfr Arfer Dda*.<sup>20</sup>

4.19 Cyfeiriodd nifer o Hyrwyddwyr at yr heriau wrth geisio cyfleu manteision dilyn rhywfaint o'u cyrsiau yn y Gymraeg a chynnal sgiliau iaith Gymraeg (ceir sylwadau gan fyfyrwyr am hyn isod yn 4.30). Awgrymodd sawl un y gellid ystyried defnyddio modelau rôl Cymraeg i gymryd rhan mewn cyflwyniadau neu weithgareddau i hybu manteision dwyieithrwydd, yn debyg i'r hyn a wneir yng nghyd-destun addysg mentergarwch drwy raglen 'Dynamo'.<sup>21</sup> Roedd sylwadau yn tanlinellu pwysigrwydd ymdrechion i farchnata darpariaeth Cymraeg yn effeithiol - ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

4.20 Nododd tiwtoriaid bod y broses o ennyn diddordeb yn gallu bod yn 'dalcen caled' ar brydiau. Yng ngeiriau un, mae'n fater o '*dynnu'r iaith mas o'r myfyrwyr*', yn enwedig lle nad yw'r hyder ganddynt i'w defnyddio. Roedd mwyafrif y dysgwyr a gyfrannodd i'r astudiaeth yn gwerthfawrogi'r ffaith bod colegau yn cynnig rhywfaint yn y Gymraeg. Nododd sawl un bod tiwtoriaid yn annog defnydd o'r Gymraeg yn hytrach na gorfodi. Ymddengys bod hyn yn derbyn ymateb cadarnhaol gan ddysgwyr:

*'Mae'n wahanol i'r ysgol ac mae'r 'athrawon' yn llai ffurfiol - mae tiwtoriaid yn annog ni i drïo pethau yn Gymraeg yn gyntaf. Roeddwn i'n nerfus [am y Gymraeg] i ddechrau ond erbyn hyn rwy'n gwybod y termau gwyddoniaeth.'* (Dysgwr lefel 3, gofal anifeiliaid)

<sup>20</sup> Prifysgol Aberystwyth (2012) *Llawlyfr Arfer Dda*: Enghreifftiau o Arfer Dda wrth Annog Myfyrwyr Addysg Bellach i Barhau â'u Haddysg drwy Gyfrwng y Gymraeg. Lluniwyd gan: Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Aberystwyth, mewn partneriaeth â Wavehill ar gyfer Bwrdd yr Iaith. Ar gael ar <http://collegeswales.ac.uk/download.ashx?r=623>

<sup>21</sup> Prosiect a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i hybu sgiliau mentergarwch yw Dynamo; fel rhan o'r prosiect mae cyflogwyr a chynrychiolwyr busnes yn ymweld ag ysgolion a cholegau i siarad gyda dysgwyr am y manteision o ddechrau busnes.

- 4.21 Nodwyd rhai o'r rhwystrau ymarferol sy'n dylanwadu ar ddewis iaith myfyrwyr. Nododd un tiwtor bod dysgwyr (sydd wedi dod i'r coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn aml yn bendant eu barn nad ydynt yn dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y coleg. Mae dysgwyr eraill yn gyndyn i gymryd y penderfyniad i astudio elfennau o'r cwrs drwy gyfrwng iaith wahanol i weddill y dysgwyr.

*'Mae'n anodd [troi i'r Gymraeg] pan ti yw'r unig un allan o grŵp o 12 sy'n siarad Cymraeg.'* (Dysgwr, gwallt a harddwch)

*Heriau wrth gynyddu darpariaeth a mesur y cynnydd*

- 4.22 Roedd nifer o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd ac ymarferwyr o'r farn bod diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer addysg bellach, ynghyd â diffyg amser i gyfieithu adnoddau, yn rhwystro i gynyddu darpariaeth. Roedd sawl ymarferwr o'r farn y gellid cynyddu niferoedd y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg (yn ôl y diffiniad presennol) drwy ddyrannu mwy o arian ac amser at gyfieithu adnoddau o fewn eu coleg.
- 4.23 Cynigiwyd rhai enghreifftiau o gyrsiau lle'r oedd gwaith llafar a thiwtora yn cael eu cyflawni yn y Gymraeg a lle'r oedd y profiad i rai dysgwyr ar y cwrs hwnnw yn un cyfrwng Cymraeg i raddau helaeth ond bod y cwrs yn swyddogol drwy gyfrwng y Saesneg.
- 4.24 Her wrth geisio mesur y cynnydd yw'r ffaith bod nifer o ddatblygiadau a arweinir gan Hyrwyddwyr yn cwmpo y tu allan i'r hyn a gofnodir yn LA26. Adrodda Hyrwyddwyr ei bod hi'n anodd dangos traweffeithiau eu gwaith o godi ymwybyddiaeth, ennill ewyllys da a sicrhau perchnogaeth ymysg y gweithlu gan fod y gweithgareddau hyn – er yn hollbwysig i lwyddiant tymor hir prosiect – yn aml yn anffurfiol.

## *Systemau casglu a rheoli data*

- 4.25 Mae'r astudiaeth hon wedi canfod nad yw systemau rheoli data mewnol colegau yn defnyddio dull cyffredin o gofnodi'r data sy'n ymwneud â chofrestriadau ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. O ganlyniad mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y colegau. Mae hyn yn adlewyrchu casgliadau'r gwerthusiad o'r cynllun peilot a gwblhawyd yn 2008, ac ymddengys bod yr angen i gysoni dulliau o gasglu data monitro yn parhau yn fater sy'n gofyn am sylw. Gwelir bod colegau yn cyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd mewn adroddiadau blynyddol - mae'r gwahaniaethau hyn yn creu heriau wrth geisio creu proffil Cymru-gyfan o'r sefyllfa ar draws y sector addysg bellach. Nododd lleiafrif yr Hyrwyddwyr nad oeddynt yn medru cael gafael ar ddata cyfredol yn hawdd gan swyddogion rheoli systemau data yn eu sefydliad.
- 4.26 Mae'n bwysig bod systemau casglu data yn galluogi sefydliadau i gofnodi a chydabod cyfraniad gwaith yr Hyrwyddwyr i'r broses o gyflwyno cyrsiau neu fodiwlau newydd. Fodd bynnag, yn sgil yr anghysondebau a amlinellir uchod, mae cymharu a dadansoddi cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector addysg bellach yn heriol. Golyga hyn bod mesur traweffeithiau'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn broblematig gan nad oes modd cymharu data ar fewnbynau a chanlyniadau'r prosiect mewn ffordd gyson a chadarn.

## **Cynnydd yn erbyn Amcan 4: Cynnal a gwella sgiliau Cymraeg myfyrwyr**

- 4.27 Mae mesur effeithiolrwydd yr hyn y mae colegau yn ei wneud i gynnal a gwella sgiliau ieithyddol myfyrwyr yn anodd. Nid oedd y data a oedd ar gael yn ystod cyfnod yr astudiaeth hon yn cynnig darlun o effeithiolrwydd y cynllun wrth gynnal a gwella sgiliau iaith Gymraeg myfyrwyr (er dylid nodi bod prosesau monitro wedi newid ers Medi 2013 – gweler 4.29). I ddeall cynnydd yn erbyn yr amcan hwn mae gofyn mesur sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr wrth gyrraedd y coleg a chasglu

data pellach i fesur unrhyw newidiadau yn ystod eu cyfnod yno. Er bod y colegau yn defnyddio dulliau amrywiol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth ar allu ieithyddol y myfyrwyr sy'n ymuno â hwy, nid yw monitro cynnydd sgiliau ieithyddol yn gyffredin.

- Nododd wyth o'r colegau eu bod yn defnyddio dulliau 'hunan asesu' gan gynnwys cwestiynau ar ffurflenni cais neu ffurflenni cofrestru ac arolygon o allu neu hyder ieithyddol dysgwyr (e.e. arolygon QDP a ddefnyddir mewn nifer o golegau i gasglu barn myfyrwyr).<sup>22</sup>
- Roedd saith o'r colegau yn amcangyfrif gallu ieithyddol dysgwyr yn seiliedig ar natur ieithyddol eu cyn-ysgolion, gyda thri yn defnyddio'r ffynhonnell hon yn unig.
- Nododd dau goleg eu bod yn defnyddio canlyniadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Ail Iaith dysgwyr i asesu gallu ieithyddol.

4.28 Nid yw'r data a gyflwynir gan golegau yn yr adroddiadau monitro a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru yn galluogi dadansoddiad o ba mor effeithiol yw colegau wrth *gynnal* a *gwella* sgiliau Cymraeg dysgwyr. Nododd sawl Hyrwyddwr Dwyieithrwydd bod oedi mewn derbyn data ar allu ieithyddol myfyrwyr yn creu anawsterau iddynt wrth geisio targedu darpariaeth a chefnogaeth i'r myfyrwyr hynny sydd â sgiliau Cymraeg.

*'Cesglir data ar gefndir addysgol darpar fyfyrwyr addysg bellach ar sail ysgolion blaenorol (cyfrwng Cymraeg/dwyieithog). Caiff yr wybodaeth yma ei throsglwyddo i'r Penaethiaid Adran fel eu bod yn gallu paratoi dulliau o gefnogi myfyrwyr pan fyddant yn cychwyn ar gwrs yn y Coleg. Mae'r adroddiad hwnnw bellach yn rhan allweddol o broses adrodd y Coleg gyda'r manylion ar gael ar y fewnwyd i staff.'* (Adroddiad monitro)

---

<sup>22</sup> Cwmni sy'n darparu arolygon myfyrwyr mewn nifer o golegau yng Nghymru yw QDP Services.

*‘Mae adnabod y siaradwyr Cymraeg o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhwydd, ond mae hi’n fwy o her i gael gwybodaeth am sgiliau ieithyddol dysgwyr sy’n trosglwyddo o ysgolion dwyieithog.’  
(Adroddiad monitro)*

4.29 Ers Medi 2013, mae wedi bod yn ofyniad ar golegau, wrth gofrestru myfyrwyr, i gofnodi gwybodaeth ar lefel cymhwyster iaith Gymraeg uchaf pob myfyriwr cyn iddynt ddechrau’r cwrs – boed yn iaith gyntaf neu’n ail iaith. Mae’r datblygiadau diweddar hyn i’r LLWR yn cynnig y potensial i gryfhau’r broses o gasglu data cyson ar allu ieithyddol myfyrwyr a’r gallu i fesur dilyniant ieithyddol.

*Heriau wrth geisio cynyddu’r nifer sy’n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg*

4.30 Cyfeiriodd Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd at y rhwystrau a wynebwr wrth geisio cynyddu nifer y dysgwyr sy’n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg hyder ymysg myfyrwyr wrth ddefnyddio’r iaith, traddodiad o astudio’n Saesneg mewn addysg bellach, diffyg ymwybyddiaeth o fanteision astudio yn y Gymraeg, y tueddiad i ‘flaenoriaethu’r cwrs ac nid y cyfrwng’ ac awydd i newid eu cyfrwng addysg o’r Gymraeg yn dilyn gadael yr ysgol. Ategwyd hyn gan fyfyrwyr yn ystod grwpiau trafod a chyfweiliadau gyda dysgwyr sy’n derbyn peth darpariaeth yn Gymraeg neu’n ddwyieithog. Mynegwyd teimladau cymysg, hefyd, gyda nifer yn cyfeirio at y manteision a’r anfanteision o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn eu barn nhw.

*‘Dydw i ddim yn hyderus yn y Gymraeg. Rwy’n siarad Saesneg gyda ffrindiau - er bod ni’n deall Cymraeg. Mae’r tiwtor yn siarad Cymraeg gyda ni yn ystod y gwersi - jyst yn dweud ‘bore da’.. ac mae’n rhoi ‘handouts’ a ‘powerpoint’ i ni yn Gymraeg - ond dyw’r iaith ddim ar top y rhestr o bethau pwysig i fod yn onest’. (Dysgwr, cwrs harddwch)*

*‘Mae’n well gyda fi cael [y cwrs] yn Saesneg – ni’n gwybod y termau yn Saesneg ac os bydden ni’n mynd i weithio yn Llundain bydden i eisïau gwybod y geiriau i gyd yn Saesneg wedyn.’ (Dysgwr, cwrs harddwch)*

*‘O’n i ddim yn gwybod bod e’n bosib gwneud pethau yn Gymraeg - ond ym mis Medi daeth tiwtor ata i a chynnig help. Dwi’n gwneud rhan o’r Bac yn Gymraeg - rwy’n falch o’r cyfle’. (Dysgwr, cwrs Bagloriaeth Cymru)*

*'Dwi'n awyddus cadw mlaen gyda'r Gymraeg achos bydd e'n helpu fi yn y dyfodol dwi'n credu' (Dysgwr, cwrs seicoleg)*

*'Mae gwneud pethau yn Gymraeg yn fwy o waith – achos dyw e ddim mor hawdd ac mae'n gallu cymryd yn hirach i wneud pethau yn Gymraeg. Efallai bod pobl eraill yn gweld e fel hwnna hefyd'. (Dysgwr, cwrs cyfryngau)*

*'Doeddwn i ddim isho [gwneud rhan o'r cwrs yn y Gymraeg] ond nath [y tiwtor] ddweud bod e'n dda ar ffurflen UCAS.' (Dysgwr, cwrs cyfryngau)*

4.31 Gwelwyd sylwadau sy'n ategu'r pwyntiau uchod yn un o'r adroddiadau monitro:

*'Bach iawn yw'r niferoedd sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwaith ymchwil sydd wedi ei wneud wrth gyfweld â myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn dymhorol yn dangos tueddiad i astudio cyrsiau Addysg Bellach drwy gyfrwng y Saesneg a hynny am ddau reswm yn bennaf sef 1) diffyg adnoddau addysgol/llyfrau cwrs ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd penodol, 2) dymuniad myfyrwyr i wella eu sgiliau Saesneg.' (Adroddiad Monitro)*

4.32 Cymharodd un coleg ffigyrau ar allu ieithyddol myfyrwyr gyda'r data ar y nifer o fyfyrwyr a nododd awydd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; daethpwyd i'r casgliad bod nifer uchel o fyfyrwyr gyda sgiliau Cymraeg yn gyndyn o ddewis astudio yn y Gymraeg, sy'n awgrymu bod angen hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn well ymysg y rheiny sydd wedi trosglwyddo i'r coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

*'Gellir gwneud cymhariaeth rhwng sgiliau ieithyddol dysgwyr Coleg x a'u hagweddau tuag at iaith ddysgu yn y coleg, gyda chanran uchel (70-80 y cant) yn datgan bod ganddynt sgiliau yn y Gymraeg, ond canran isel yn datgan dymuniad i ddysgu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog (23 y cant). Mae yma her i'r coleg ac i ysgolion yr ardal gynyddu'r ddealltwriaeth o werth y Gymraeg a sgiliau dwyieithog ymysg y garfan o ddysgwyr sy'n debygol o barhau â'u haddysg yn y sector addysg bellach.' (Adroddiad Monitro)*

4.33 Nododd sawl Hyrwyddwr Dwyieithrwydd bod gwasgariad myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar draws ystod eang o gyrsiau yn golygu bod diffyg más

critigol ar gyfer darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Amlinellwyd hyn yn un o adroddiadau monitro'r colegau:

*'Er bod y ffigwr o [nifer myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg] yn ei gyfanrwydd yn ymddangos yn sylweddol rhaid cofio fod y myfyrwyr yma wedi'u gwasgaru ar draws oddeutu 200 o wahanol gyrsiau. Ar gyfartaledd felly dim ond un neu ddau o fyfyrwyr sy wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg a geir ar bob cwrs.'*  
(Adroddiad monitro)



## 5 Y gweithlu

- 5.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â thri o amcanion y prosiect sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu. Yn gyntaf, ystyrir y cynnydd yn erbyn Amcanion 5 a 6, sy'n ymwneud â chynyddu nifer y staff sy'n medru darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Amcan 5:**

*Cynyddu nifer staff y coleg a all helpu ac sy'n gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**Amcan 6:**

*Datblygu gallu staff er mwyn i golegau roi mwy o gymorth i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, cyfleoedd dysgu ffurfiol yn ogystal â sefyllfaoedd cymdeithasol anffurfiol fydd yn datblygu sgiliau ieithyddol dwyieithog ac ymwybyddiaeth iaith ymhellach.*

- 5.2 Rhoddir sylw hefyd i Amcan 7, sy'n ymwneud â sefydlu rhaglenni mentora ar gyfer staff sy'n derbyn hyfforddiant i'w galluogi i addysgu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

**Amcan 7**

*Sefydlu a chynnal rhaglen fentora yn y coleg i gefnogi staff y coleg sy'n dilyn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.*

### Tystiolaeth o gynnydd yn erbyn Amcanion 5 a 6

- 5.3 Adolygwyd y data a gyflwynwyd gan golegau yn eu hadroddiadau monitro diweddaraf er mwyn deall y dulliau a ddefnyddir gan golegau i gofnodi nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n medru defnyddio'r Gymraeg fel iaith addysgu.
- 5.4 Cynigiodd deg allan o'r 12 coleg<sup>23</sup> sydd â Hyrwyddwr Dwyieithrwydd wybodaeth ar sgiliau iaith Gymraeg eu staff a'r hyfforddiant a gynlluniwyd ar gyfer datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg. O'r rhain

<sup>23</sup>Cyflwynodd Grŵp Llandrillo-Menai ddata ar y cyd ar gyfer y dangosydd hwn.

nododd naw coleg bod ganddynt gyfanswm o 784 o staff (gan gynnwys staff ategol) oedd yn siarad Cymraeg 'yn rhugl', 'yn dda' neu fod ganddynt 'sgiliau siarad canol/uwch'. Serch hynny, dylid nodi nad oedd methodolegau casglu data yn gyson ar draws y colegau. Roedd un coleg yn casglu data manwl ar allu ieithyddol eu staff gan ddefnyddio system 'Dangosydd Rheoli Cymraeg yn y Gweithle' Llywodraeth Cymru.<sup>24</sup> Nododd un coleg nad oedd data ar gael gan fod arolwg yn y broses o gael ei gwblhau; ni chyflwynwyd data nac unrhyw wybodaeth gan un coleg arall.

- 5.5 Er bod rhai colegau wedi cynnig data a oedd yn dangos canran eu staff oedd â sgiliau iaith Gymraeg, nid oes modd dadansoddi'r data ar allu ieithyddol staff colegau fel canran o'r holl staff ar draws Cymru. Er mwyn gwneud hynny, byddai angen cysoni'r dull o gasglu data ar draws yr holl golegau, gan ofyn am ddata ar siaradwyr Cymraeg yn ogystal â niferoedd staff ar draws y coleg. Nid yw'r data monitro, chwaith, yn gwahaniaethu rhwng nifer y staff sydd â rhyw lefel o sgiliau iaith a'r rheini sy'n *'gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg'* (Amcan 5). Dengys hyn rai o gyfyngiadau'r data monitro cyfredol.
- 5.6 Yn ystod cyfweiliadau adroddodd nifer o Hyrwyddwyr a Chyfarwyddwyr bod dulliau monitro sgiliau iaith Gymraeg sefydliadau wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn sawl coleg, cwblheir awdit blynyddol o sgiliau iaith staff sy'n galluogi sefydliadau i adnabod bylchau mewn cyfadrannau penodol ac i dargedu cyrsiau hyfforddiant yn unol â hynny. Mae Hyrwyddwyr yn cydlynu'r gweithgareddau hyn mewn sawl coleg.

## Hyfforddiant

- 5.7 Adroddwyd gan golegau (yn eu ffurflenni monitro ar gyfer 2012/13) eu bod yn cynnig – neu yn cyfeirio ymarferwyr tuag at – ystod o wahanol fathau o hyfforddiant mewn ymateb i anghenion neu ofynion ymarferwyr.

---

<sup>24</sup><http://www.cymraegygyweithle.org.uk/>

Mae'r rhestr isod yn cynnig enghreifftiau o'r gwahanol gyrsiau y mae Hyrwyddwyr yn eu cydlynu neu yn eu hybu, yn hytrach na chyfleu darlun llawn o'r holl hyfforddiant a fynychwyd gan ymarferwyr ar draws Cymru. Dylid nodi hefyd bod y data isod yn cynrychioli cyfanswm ar draws yr holl golegau dros un flwyddyn academaidd.

- Cyrsiau ymwybyddiaeth iaith oedd fwyaf cyffredin, gydag 899 o ymarferwyr ar draws 13 coleg wedi mynychu cyrsiau o'r fath yn y flwyddyn 2012/13;
- Cyrsiau dysgu Cymraeg (cyrsiau Cymraeg i Oedolion, cyrsiau iaith mewnol) wedi'u mynychu gan 200 o ymarferwyr, yn ôl yr adroddiadau monitro a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru;
- Cyrsiau Sgiliaith (51 o ymarferwyr);
- Y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr (27 o ymarferwyr);
- Cyrsiau methodoleg dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog (4 o ymarferwyr);
- Cyrsiau eraill (172 o ymarferwyr), gan gynnwys 'dwyieithrwydd yn y dosbarth' a 'defnyddio TGCh i hybu'r Gymraeg'.

5.8 Mae Hyrwyddwyr a Chyfarwyddwyr colegau yn cydnabod bod gwella sgiliau staff presennol yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect.

*'Mae tipyn o fy amser yn cael ei dreulio yn perswadio, annog a hwyluso staff i wella'u Cymraeg. Os nad yw'r sgiliau gyda ni o fewn y gweithlu dyw'r ymdrechion eraill i gynyddu darpariaeth ddim yn mynd i lwyddo.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

5.9 Nododd un Hyrwyddwr mai cam cyntaf y broses yw codi ymwybyddiaeth ar draws y gwahanol gyfadranau o'r angen i ystyried y Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog. Nododd nifer o Hyrwyddwyr ei bod hi'n 'ddyddiau cynnar' o safbwynt datblygu darpariaeth Gymraeg a bod sicrhau cefnogaeth ac ewyllys da ymysg cydweithwyr yn rhan bwysig o'r gwaith.

*‘Rhoi yr iaith Gymraeg ar yr agenda i staff yw’r peth cyntaf. Pan mae yna ddiwrnodau datblygu staff, mae sesiwn dwyieithrwydd bellach ‘da ni fel rhan o bob diwrnod. Mae hwn yn bwysig achos mae’n cadw dwyieithrwydd ar flaen meddyliau’r staff.’*  
(Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

- 5.10 Roedd consensws ymysg cyfweleion ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod datblygiadau mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ‘*cael eu perchnogi*’ gan staff y coleg. Nododd un Cyfarwyddwr bod newid ethos colegau a chynyddu cyfleoedd addysgu dwyieithog yn gofyn am ‘*newid agweddau a diwylliant i rai*’.
- 5.11 Gwelwyd cydnabyddiaeth gan oddeutu hanner y sefydliadau bod angen buddsoddiad ar sawl lefel er mwyn datblygu sgiliau iaith ymarferwyr a bod honno yn broses tymor hir. Mae’r enghreifftiau o gyrсияu yn 5.7 uchod yn dangos bod cyrsiau ar gael i gefnogi sgiliau iaith sylfaenol ymarferwyr; serch hynny, nid yw’r data yn ddigon cyflawn i ganiatáu i ni ddeall ble mae’r bylchau o ran argaeledd hyfforddiant ac i ba raddau y mae’r hyn a ddarperir yn cwrdd â’r galw. Mae Hyrwyddwyr yn adrodd eu bod wedi gweithio gydag adrannau i adnabod tiwtoriaid priodol ar gyfer y Cynllun Sabothol. Ceir ystyriaeth bellach o’r cysylltiadau rhwng yr Hyrwyddwyr a’r Cynllun Sabothol mewn adroddiad arall a gyhoeddwyd fel rhan o’r gwerthusiad o’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.<sup>25</sup> Mae’r adroddiad hwnnw yn nodi’r heriau y mae sefydliadau yn eu hwynebu wrth ryddhau aelodau staff i fynychu cyrsiau oherwydd ei bod weithiau yn anodd dod o hyd i staff cyflenwi addas.
- 5.12 Nododd nifer o golegau eu bod wedi cyfrannu at broses o ddatblygu erfyn diagnostig a ariennir gan Lywodraeth Cymru i adnabod lefel sgiliau Cymraeg y gweithlu mewn busnesau ac ym myd addysg.<sup>26</sup> Mae Hyrwyddwyr yn gweld potensial defnyddio’r erfyn hwn er mwyn cefnogi’r broses o adnabod anghenion a chynllunio hyfforddiant priodol.

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru (Ionawr 2014), *Gwerthusiad o’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o’r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012*

<sup>26</sup> Mae’r Erfyn Diagnostig Sgiliau yn galluogi cyflogwyr i ddadansoddi sgiliau iaith Gymraeg presennol eu staff ac i adnabod yr agweddau sydd angen eu gwella, i’w galluogi i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle.

- 5.13 Mewn sawl coleg, mae ystod o gyfleoedd hyfforddiant yn cael eu hyrwyddo, gyda rhai yn ceisio prif ffrydio datblygu sgiliau iaith fel rhan o ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr, fel y gwelir yn yr enghraifft isod.

*'Rydym yn sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd i staff i ddatblygu eu sgiliau. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae cwrs blasu byr ar gael - 5 awr o gwrs. Rydym yn talu i staff hefyd i fynychu cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Hefyd, rydym yn cynnig cyrsiau penodol i staff i ymateb i'w gofynion nhw.... Mae trefniadau mewnol hefyd yn annog datblygu sgiliau Cymraeg - pan mae tiwtoriaid yn gwneud eu harolwg blynyddol gyda'u rheolwyr llinell mae un pwynt datblygu y flwyddyn yn gysylltiedig â gwella'u Cymraeg. O achos hyn, mae mwy o anogaeth i staff i fanteisio ar y gwahanol gyfleoedd hyfforddiant.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

- 5.14 Mae rhai colegau yn gweithio 'o'r gwaelod i fyny' gan geisio sicrhau bod isafswm sgiliau Cymraeg gan bawb. Nododd un Hyrwyddwr bod gan y coleg bolisi o sicrhau bod pob aelod staff yn derbyn hyfforddiant iaith i lefel 1 yn y Gymraeg.

## Recriwtio

- 5.15 Mae Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd mewn Addysg Bellach Colegau Cymru yn annog dulliau recriwtio staff dwyieithog rhagweithiol, gan nodi y dylai sefydliadau 'adnabod neu benodi staff addas ar gyfer datblygiad ieithyddol' (tud. 7). Mae'r Strategaeth yn cydnabod hefyd yr angen i sefydlu proses penodi staff sy'n 'anelu at ganiatáu i'r ddarpariaeth ddwyieithog barhau drwy sicrhau staff addas i gymryd lle staff allweddol sy'n gadael'. Nid yw'n eglur i ba raddau y mae Colegau Cymru yn monitro cynnydd yn y maes hwn ar draws y sector.
- 5.16 Mae Cynlluniau Iaith Gymraeg sefydliadau yn gosod amodau ar gyfer recriwtio staff gyda sgiliau Cymraeg. Mae'r cynlluniau yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth benodi aelodau newydd er mwyn cynyddu gallu'r sefydliadau i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae sefydliadau yn nodi eu bod yn asesu gofynion ieithyddol swyddi newydd. Mae lleiafrif o sefydliadau yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer pob swydd.

5.17 Dengys y dystiolaeth a gasglwyd mewn cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr sefydliadau, y gellir manteisio ar gyfleoedd pan ddaw swyddi'n wag. Mae cydnabyddiaeth ymysg colegau o'r cyfleoedd i benodi staff gyda sgiliau yn y Gymraeg mewn meysydd blaenoriaeth ac ar gyfer pynciau lle mae'r galw yn tyfu. Mae lleiafrif o golegau wedi mynd ati i benodi staff sy'n medru darparu yn y Gymraeg mewn ymateb i alw penodol am gyrsiau (gweler yr enghraifft yn Adran 3.16). Cafwyd enghreifftiau hefyd o'r math o weithdrefnau a phrosesau sydd mewn lle i sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth bwysig wrth recriwtio i swyddi gwag, gan gynnwys yr enghraifft isod.

*'Rhywbeth sydd wedi helpu lot yw'r strategaeth staffio sydd mewn lle – ar gyfer pob swydd wag sy'n dod i fyny yn y coleg, mae 'na adran ar y ffurflen sy'n golygu bod yn rhaid i bwy bynnag sy'n gofyn am y swydd drafod gyda fi a holi 'ydyn ni angen person sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y swydd yma neu beidio?'. Os ydym yn cytuno bod y Gymraeg yn angenrheidiol, mae hynny wedyn yn ffurfio rhan o'r hysbyseb. Os ydyn ni'n penderfynu bod angen sgiliau Cymraeg a bod rhywun yn dod i fewn i'r swydd heb unrhyw lefel o Gymraeg, yna mae'n ofynnol eu bod nhw wedyn yn mynd ar gwrs Cymraeg o fewn cyfnod penodol o amser'. (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)*

5.18 Cyfeiriodd tri o'r cyfarwyddwyr / uwch-reolwyr y cyfweilwyd â hwy at yr heriau wrth recriwtio staff gyda sgiliau Cymraeg. Yr her fwyaf cyffredin yw dod o hyd i unigolion gyda'r cyfuniad angenrheidiol o rinweddau, h.y. y sgiliau iaith Gymraeg a'r cymwysterau priodol. Nodwyd bod colegau wedi profi anawsterau mewn pynciau penodol, gyda iechyd a gofal yn faes lle mae sawl sefydliad wedi ei chael yn anodd penodi.

### **Tystiolaeth o gynnydd mewn perthynas â rhaglenni mentora**

5.19 Cyflwynodd 11 o'r 13 coleg sydd â Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd ddata ar niferoedd y staff a oedd yn mentora eraill o fewn y coleg; nododd y ddau goleg arall nad oedd mentora yn digwydd yn eu sefydliad ar hyn o bryd. Yn yr 11 coleg a oedd yn cynnig rhaglen fentora, roedd cyfanswm o 21 mentor yn gweithredu yn 2012-13, gan gynnig cefnogaeth i gyfanswm o 65 mentora. Cyfeiriwyd hefyd at gefnogaeth Sgilaith fel rhan o'r broses o gynllunio a chynnal rhaglenni mentora.

- 5.20 Nododd rhai colegau fanteision a deilliannau'r broses fentora yn eu hadroddiadau monitro i Lywodraeth Cymru.

*'Mae grŵp newydd wedi ei sefydlu yng Nghampws x i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob adran. Mae cynrychiolydd o bob adran yn cwrdd â [enw mentor] unwaith pob hanner tymor i drafod adnoddau, problemau a'r camau nesaf i ddatblygu cyrsiau dwyieithog. Mae'r grŵp wedi nodi cyrsiau ym mhob ysgol sydd a'r potensial i'w datblygu yn ddwyieithog.'* (Adroddiad monitro)

- 5.21 Cynigiwyd enghraifft o sut yr oedd un tiwtor wedi elwa o raglen fentora yn ei goleg ef. Roedd yr ymarferydd hwn, tiwtor Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi mynychu cwrs byr y Cynllun Sabothol ac roedd yn awyddus i *'gadw'r momentwm i fynd'* gyda chymorth mentor. Eglurodd bod y mentor wedi arsylwi gwersi yn y lle cyntaf, cyn trafod targedau penodol o ran ehangu'r ddarpariaeth Cymraeg.

*'Wnaethom ni [y tiwtor a'r mentor] gyd-baratoi sesiynau Cymraeg a dwyieithog. Mae'r cymorth o ran y methodolegau dysgu wedi bod yn werthfawr iawn. Y peth pwysig yw cyflwyno yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf fel ei fod yn naturiol i'r myfyrwyr glywed.'* (Tiwtor, coleg addysg bellach)

- 5.22 Yn ystod trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r colegau, clywyd enghreifftiau o weithgareddau mentora ffurfiol ac anffurfiol. Mewn un achos, nodwyd bod Hyrwyddwr Dwyieithrwydd wedi llwyddo i dynnu'r staff Cymraeg at ei gilydd ar gyfer cwrs preswyl er mwyn rhannu syniadau ac arferion da wrth ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ariannwyd hyn drwy gyllid canolog y coleg (hynny yw, nid o'r grant ar gyfer yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd).

- 5.23 Cyflwynwyd enghreifftiau eraill o golegau yn buddsoddi mewn rhaglenni mentora o gronfeydd ariannol canolog. Eglurodd un coleg:

*'Rydym yn cydnabod os ydym ni am gefnogi datblygiadau yn y Gymraeg – i gymryd pethau i'r cam nesaf – mae'n rhaid cynnig cefnogaeth i'r staff. Mae rôl i gefnogi technegau addysgu yn hollbwysig.'* (Uwch reolwr, coleg addysg bellach)

5.24 Cyfeiriodd Cyfarwyddwr un coleg at un o rinweddau pwysig y rhaglen fentora:

*'Getting a peer to come in and support practitioners is far better than a manager going in. They're supportive, they're not judgemental, the focus is on practice and on improving practice. It's very much about that supportive ethos.'* (Cyfarwyddwr, coleg addysg bellach)

5.25 Nododd nifer o Hyrwyddwyr eu bod yn ceisio gwneud defnydd hyblyg o fentoriaid, a'u defnyddio mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion ymarferwyr. Adroddwyd bod trefniadau mentora yn cynnig manteision i ymarferwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Cynnig cefnogaeth i diwtor i'w helpu i gynllunio a darparu sgiliau allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cefnogi cyn-gyfranogwyr y cwrs Sabothol i atgyfnerthu eu sgiliau newydd a'u rhoi ar waith;
- Magu hyder ymysg tiwtoriaid i gefnogi datblygiad unedau/modiwlau newydd yn y Gymraeg;
- Sesiynau ymwybyddiaeth iaith grŵp i wahanol dimau cwricwlwm.

5.26 Ymddengys bod dulliau gweithredu rhaglenni mentora yn amrywio, a'u bod wedi datblygu yn arafach na'r disgwyl mewn nifer o sefydliadau. Mewn rhai colegau, yr Hyrwyddwyr eu hunain sy'n gwneud y gwaith mentora, a hynny, yn ôl adroddiadau monitro'r prosiect, oherwydd nad oes cyllideb benodol ar gael i ariannu'r gwaith. Nododd un Hyrwyddwr mewn coleg yn y de ddwyrain:

*'Fan hyn mae gyda ni darged o gael dau fentor. Ond does dim cyllid ar gael. Mae blwyddyn a hanner wedi mynd ond does dim mentora yn digwydd.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

5.27 Cyfeiriwyd at rai o'r rhwystrau eraill a wynebwyd. Eglurodd lleiafrif o Hyrwyddwyr bod pwysau amser a'r ystod eang o ddyletswyddau eraill wedi golygu nad yw mentora wedi bod 'mor uchel ar y rhestr o flaenoriaethau hyd yma'. Serch hynny, nodwyd bod sylw wedi troi yn



ddiweddar at yr elfen hon a bod datblygiadau ar y gweill mewn nifer o golegau. Nodwyd ei bod hi wedi bod yn anodd adnabod yr ymarferwyr fyddai'n elwa fwyaf o gefnogaeth mentor.

### **Cynllunio datblygiad sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu**

5.28 Cydnabu cynrychiolwyr sefydliadau bod angen cynllun tymor hir ar lefel sefydliadol er mwyn gwella sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. Mae ystod eang o gyrsiau hyfforddiant a chefnogaeth ar gael i gefnogi datblygiad ar hyd y continwum ieithyddol. Mae cynrychiolwyr sefydliadau, gan gynnwys Hyrwyddwyr ac uwch reolwyr, yn cytuno ar bwysigrwydd y gefnogaeth hon. Y farn ymysg mwyafrif yr Hyrwyddwyr yw bod angen i'r gefnogaeth gael ei gwreiddio mewn cynlluniau clir (ar lefel sefydliadol ac o fewn cyd-adrannau) a'r ewyllys (ar lefel tiwtoriaid personol) i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Gwelwyd rhai enghreifftiau o gynllunio strategol pwrpasol i ddatblygu darpariaeth Gymraeg mewn pynciau penodol a recriwtio staff gyda'r sgiliau i fedru cynnig y ddarpariaeth ond enghreifftiau prin oedd y rhain ar y cyfan. Dengys y dystiolaeth bod gofyn am ymrwymiad clir gan benaethiaid ac uwch reolwyr i yrru cynlluniau strategol o'r fath. Ar yr un pryd mynegodd cyfranwyr y farn bod angen lledaenu'r arfer da sydd i'w weld mewn rhai sefydliadau.

5.29 Mae gan Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd rôl allweddol i chwarae wrth gefnogi a gweithredu cynlluniau i ddatblygu'r gweithlu yn eu sefydliadau. Ymddengys bod Hyrwyddwyr wedi bod yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth ymysg staff ac argyhoeddi nifer ohonynt fod gwerth buddsoddi yn eu sgiliau Cymraeg. O ganlyniad, gwelwyd ystod o weithgareddau a datblygiadau newydd ar draws y sector, gan gynnwys cyrsiau ymwybyddiaeth iaith, rhaglenni mentora a chyfranogiad tiwtoriad ar y Cynllun Sabothol a chysiau iaith eraill. Serch hynny nid yw traweffeithiau'r gwaith yma eto yn amlwg o safbwynt gweddnewid nifer staff y colegau sy'n datblygu ac yn darparu modiwlau a chysiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.30 Mae angen sicrhau bod yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a roddir i diwtoriaid yn cael eu targedu mewn ffordd sy'n gyson â chynlluniau

sefydliadol i ddatblygu neu ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## 6 Cydweithio a chynaliadwyedd

- 6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y dystiolaeth ar gynnydd yn erbyn y ddau amcan olaf sy'n sail i'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd (Amcanion 8 a 9). Yn gyntaf, cyflwynir tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd gan golegau wrth adnabod a rhannu arfer da gyda gwahanol bartneriaid – partneriaid o fewn y colegau a phartneriaid allanol. Yn ail, edrychwn ar y camau a gymerwyd gan sefydliadau i gynnal rôl yr Hyrwyddwyr fel rhan ganolog o'u cynlluniau strategol ar ôl i'r grant ddod i ben. Mae elfen o orgyffwrdd rhwng yr amcanion hyn, gan fod sefydlu arferion da a phartneriaethau effeithiol yn greiddiol i gynaliadwyedd y prosiect. Ystyrir y cysylltiadau hyn ymhellach islaw.

### **Amcan 8:**

*Rhannu arfer da a chynnig cymorth ymarferol yn y colegau ac mewn cydweithrediad â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yn yr ardal, gyda chefnogaeth Sgiliaith.*

### **Cynnydd wrth gynnig cymorth ymarferol**

- 6.2 Daeth yn glir yn ystod y cyfweiliadau gyda Hyrwyddwyr eu bod yn ystyried rhannu arfer da a chynnig cymorth i ymarferwyr a phartneriaid fel un o brif agweddau'r rôl. Fel y nodwyd ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn, mae Hyrwyddwyr yn gweithio yn uniongyrchol gyda thiwtoriaid mewn ystod eang o ffyrdd. Cynigir amrediad o ddulliau cynorthwyo, yn cynnwys gweithio gyda staff i gynllunio gwersi dwyieithog, cyflwyno geirfa Gymraeg i gynyddu ethos iaith Gymraeg gwersi, a gweithio yn fwy strategol gydag adrannau i adnabod galw a chyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

*'Dwi wedi rhedeg sesiynau hyfforddiant i staff yma ac wedi datblygu 'checklist' o bethau ar gyfer tiwtoriaid – pethau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd i'r ymarferwyr medru dilyn wrth iddyn nhw gynllunio'u gwersi.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

- 6.3 Mae Hyrwyddwyr eu hunain yn cynnig cymorth ymarferol er mwyn cynyddu darpariaeth mewn ambell i goleg. Mewn colegau lle mae

prinder staff sydd yn medru addysgu yn y Gymraeg gwelwyd enghreifftiau o Hyrwyddwyr yn darparu unedau *laith ar Waith* fel rhan o gyrsiau.

*Tystiolaeth o gydweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill*

- 6.4 Mae'r adroddiadau monitro a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru yn cynnwys data ar y partneriaethau a sefydlwyd gan Hyrwyddwyr i gefnogi eu gwaith. Mae adroddiadau 2012/13 yn rhestru'r partneriaethau newydd a sefydlwyd gydag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant eraill. Adrodda'r mwyafrif (10 allan o 13 o golegau) eu bod wedi creu partneriaethau gydag ysgolion lleol; nodir gan bedwar bod partneriaethau ganddynt gyda cholegau addysg bellach eraill. Mae gan bump o'r colegau gysylltiadau gyda phrifysgolion, er mwyn datblygu llwybrau dilyniant i mewn i'r sector addysg uwch. Er bod nifer o'r rhain yn bartneriaethau strategol sydd wedi bodoli ers blynnyddoedd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod Hyrwyddwyr wedi cryfhau'r cysylltiadau hyn yn sylweddol.
- 6.5 Yn ystod cyfweiliadau tanlinellodd yr Hyrwyddwyr bwysigrwydd meithrin perthynas dda gydag ysgolion. Y farn gyffredinol ymysg y cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr a gyfrannodd at yr astudiaeth oedd bod gwell perthynas wedi datblygu rhwng y colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ers penodi'r Hyrwyddwyr.

*'Mae'r elfen o gystadleuaeth dal yn bodoli, wrth reswm, ond mae'r Hyrwyddwr wedi gweithio i adnabod meysydd gyda'r potensial i gydweithio arnynt.'* (Uwch reolwr, coleg)

- 6.6 Eglurodd Hyrwyddwyr bod cydweithio gydag ysgolion lleol yn cynnig cyfleoedd i adnabod y galw ymysg disgyblion am gyrsiau galwedigaethol. Cynigiwyd enghreifftiau hefyd yn yr adroddiadau monitro o gydweithio rhwng colegau ac ysgolion, gyda Hyrwyddwyr yn nodi eu bod wedi cwrdd â phenaethiaid a mynychu nosweithiau gyrfaedd er mwyn mapio'r cyrsiau sydd eisoes ar gael mewn ysgolion.

*‘Mae’r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd wedi creu matrices o gyrsiau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hysgolion lleol. Rydyn ni nawr yn defnyddio’r matrices i greu cynllun strategaethol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.’  
(Adroddiad monitro coleg addysg bellach)*

- 6.7 Gwelwyd enghreifftiau yn dangos bod y partneriaethau rhwng colegau ac ysgolion wedi dwyn ffrwyth, gyda darpariaeth mewn meysydd galwedigaethol yn cael ei chynnig i ddisgyblion ysgol mewn rhai colegau, fel y dengys yr enghraifft isod.

*‘Mae cyswllt da rhyngom ni ag ysgol cyfrwng Cymraeg lleol. Mae tiwtor gyda ni sy’n darparu cyrsiau Mecaneg Ceir i blant blwyddyn 10 ac 11 ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae dau wahanol gwrs - cwrs blasu 10 wythnos yn dod yn ystod y flwyddyn un set ar ôl y llall. Yna, bob dydd Gwener, mae grŵp sy’n astudio cymhwyster IMI Lefel 1 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r ysgol yn gefnogol achos mae’n cynnig cyfleoedd gwahanol i blant - bechgyn yn bennaf - sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Mae’n gyfle i gynnig strategaeth wahanol i helpu grŵp o ddysgwyr sy’n gallu bod yn heriol. Rydyn ni’n falch iawn o’r cyfle i ddangos y Gymraeg ar waith mewn cyd-destun galwedigaethol.’ (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)*

- 6.8 Nodwyd bod y lefel o gydweithio rhwng colegau yn amrywio ar draws Cymru. Eglurodd un Hyrwyddwr, sydd wedi cael profiad o weithio mewn dwy ardal wahanol:

*‘Mae mwy o gydweithio yma rhwng yr Hyrwyddwyr ar draws y rhanbarth. Mae llawer mwy o weithio mewn partneriaeth yma – mae’r Hyrwyddwyr yn barod i drafod pethau, problemau, rhannu arferion da, adnoddau. Mae natur ieithyddol y colegau fan hyn yn debycach ac rydym yn gweithio mewn sefyllfaoedd tebyg.’  
(Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)*

- 6.9 Adroddwyd bod partneriaethau gydag ysgolion yn cael eu hwyluso drwy Fforymau Cyfrwng Cymraeg 14-19 sy’n fodd o greu cysylltiad gyda phenaethiaid ac uwch reolwyr ysgolion.
- 6.10 Rhoddwyd ystod o enghreifftiau o’r partneriaethau a’r cysylltiadau eraill sydd wedi’u sefydlu neu sydd wrthi’n cael eu datblygu gan Hyrwyddwyr. Mae Hyrwyddwyr wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o’u gwaith drwy gysylltu gydag adrannau awdurdodau lleol, gydag un yn cynnig sesiynau hyfforddiant i’r Swyddog Cydraddoldeb a chydweithwyr eraill yn y cyngor.

*Data yn yr adroddiadau monitro a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru*

6.11 Rhestrwyd partneriaid eraill y mae Hyrwyddwyr yn cydweithio gyda hwy yn yr adroddiadau monitro a gyflwynir gan golegau:

- Fforymau iaith rhanbarthol (pedwar coleg)
- Fforymau iaith awdurdodau lleol (tri choleg)
- Mentrau iaith (pedwar coleg)
- Rhwydweithiau 14-19/Fforymau Addysg Cyfrwng Cymraeg rhanbarthol lleol (tri choleg)
- Urdd Gobaith Cymru (dau goleg)
- Consortiwm Dysgu yn y Gweithle (dau goleg)
- Rhwydwaith Dwyieithrwydd *ColegauCymru* (dau goleg)
- Canolfannau Cymraeg i Oedolion (dau goleg)
- Amgueddfa Cymru (un coleg)

6.12 Clywyd nifer o enghreifftiau o gyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio sgiliau iaith Gymraeg a drefnwyd ar gyfer dysgwyr yn sgil y cysylltiadau newydd a sefydlwyd gydag Urdd Gobaith Cymru a'r Mentrau Iaith.

6.13 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy gyfweiliadau gyda chynrychiolwyr y colegau yn dangos bod y partneriaethau hyn wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol. Cyflwynwyd enghreifftiau o ddarpariaeth newydd, gyda cholegau yn croesawu dysgwyr dosbarth chwech i astudio pynciau galwedigaethol. Mae'r cydweithio agosach rhwng colegau ac ysgolion wedi llwyddo i godi proffil addysg bellach a galwedigaethol ymysg dysgwyr, yn ôl uwch reolwyr mewn tri choleg. Nododd un Hyrwyddwr bod ymweliadau i ysgolion gan diwtoriaid a'r Hyrwyddwr wedi llwyddo i *'berswadio dysgwyr cyfrwng Cymraeg bod addysg bellach yn dderbyniol ac yn medru cynnig profiadau dysgu gwerthfawr'*. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u gyrru i raddau helaeth gan newidiadau i bolisi addysg 14-19

yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond cydnabyddir gan gyfarwyddwyr sefydliadau bod yr Hyrwyddwyr wedi cynnig cefnogaeth bwysig i'r broses.

6.14 Adroddodd Hyrwyddwyr bod cefnogaeth Sgiliaith wedi bod yn allweddol iddynt. Nododd un Hyrwyddwr ei bod hi'n fanteisiol iawn bod Sgiliaith ar gael fel grŵp o arbenigwyr allanol sy'n atgyfnerthu'r negeseuon a'r gefnogaeth a gynigir gan yr Hyrwyddwyr.

6.15 Mae parodrwydd tîm Sgiliaith i deilwra cefnogaeth i ymarferwyr yn cael ei ystyried fel ffactor allweddol.

*'Un o gryfderau tîm Sgiliaith hefyd yw'r ffaith eu bod yn fodlon addasu a datblygu pethau newydd....mi wnawn nhw addasu cefnogaeth i fod yn bwnc-benodol os ydych chi'n mynd mewn i faes penodol.'* (Hyrwyddwr Dwyieithrwydd)

### **Cynaliadwyedd rôl yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd**

#### **Amcan 9:**

*Dylai'r colegau gynllunio ac ariannu rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd fel rhan annatod o strategaethau cyffredinol y coleg ar ôl i'r arian grant ddod i ben.*

6.16 Mae'r Llywodraeth wedi cyllido'r rhan fwyaf o'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd am gyfnod o dair blynedd. Mae'r cyllid hwn yn darparu arian dechreuol i alluogi pob coleg i sefydlu'r rôl o hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chydlynu datblygiadau strategol. Y bwriad yn dilyn y chwistrelliad dechreuol o gefnogaeth gan y Llywodraeth yw y bydd y colegau yn cynnal y gwasanaeth eu hunain ar ôl y cyfnod grant.

6.17 Yn y sefydliadau hynny a fu'n rhan o'r cynllun ers y cyfnod peilot, mae'r swyddi eisoes wedi cael eu cynnal ar ôl i grant Llywodraeth Cymru ddod i ben. Mae Hyrwyddwyr yn y sefydliadau hyn ar gytundebau parhaol sy'n arwydd clir o ymrwymiad tymor hir i gefnogi amcanion y prosiect.

6.18 Serch hynny nid oedd mwyafrif y sefydliadau, yn enwedig y sefydliadau a ymunodd â'r prosiect yn fwy diweddar, yn medru dangos cynlluniau

cadarn ar gyfer cynnal y rôl. Yn ystod trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r colegau hynny, clywyd tystiolaeth gymysg. Nododd lleiafrif o gyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr colegau eu bod wedi rhoi cyfraniadau ariannol ychwanegol i gefnogi gwaith yr Hyrwyddwyr.

6.19 Er bod ewyllys da yn bodoli ymysg uwch-reolwyr a chyfarwyddwyr ar draws y sector, cydnabyddir ganddynt mai ystyriaethau ariannol fydd yn gyrru penderfyniadau colegau o safbwynt cynnal swydd a swyddogaethau'r Hyrwyddwyr yn y tymor hir. Nododd un cyfarwyddwr bod y broses o symud o gymwysterau i raglenni fel y sail ar gyfer cynllunio a chyllido yn golygu bod *'y darlun ariannol yn un ansicr ar hyn o bryd'*. Mae'r newidiadau i'r fframwaith cynllunio a chyllido ôl-16 yn golygu y bydd sefydliadau addysg bellach yn derbyn dyraniadau bloc i adlewyrchu costau ychwanegol darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Serch hynny, nid oes disgwyl y bydd sefydliadau yn defnyddio'r codiadau cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yma i gefnogi swyddogaethau presennol yr Hyrwyddwyr wedi i arian grant y prosiect ddod i ben. Tra bod gyrwyr strategol yn cefnogi datblygiadau (strategaethau dwyieithrwydd sefydliadau, datblygiad safonau iaith Comisiynydd y Gymraeg, llythyr blaenoriaethau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau), mae blaenoriaethau strategol eraill yn pwysu, wrth i sefydliadau ymateb i drefniadau cyllido rhaglenni dysgu newydd.

6.20 Mae cyfarwyddwyr sefydliadau addysg bellach yn cydnabod bod angen cefnogaeth tymor hir er mwyn gwireddu amcanion y prosiect a sicrhau bod datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dod yn *'rhan naturiol o feddylfryd'* sefydliadau.



## 7 Casgliadau ac argymhellion

- 7.1 Mae'r bennod hon yn dechrau drwy gyflwyno'r casgliadau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr astudiaeth. Cyflwynir y casgliadau yn erbyn amcanion y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd, ynghyd ag argymhellion i Lywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach a Cholegau Cymru. Cyfeiriwn at rai o'r datblygiadau a'r rhwystrau yr adroddwyd arnynt gan sefydliadau mewn perthynas â datblygu darpariaeth, cynyddu gweithlu cymwys a sicrhau cynaliadwyedd y prosiect.
- 7.2 Mae'r casgliadau yn tynnu sylw at y gydberthynas amlwg rhwng y prosiect a chynlluniau strategol ehangach sefydliadau addysg bellach. Fel y nodwyd ym Mhennod 1, rôl bennaf Hyrwyddwyr yw cefnogi cynllunio strategol yn eu sefydliadau i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Serch hynny mae'n bwysig cydnabod bod cynlluniau ehangach a blaenoriaethau sefydliadau yn dylanwadu ac yn gosod cyfyngiadau ar yr hyn y mae Hyrwyddwyr yn medru ei gyflawni. Gyda hyn mewn golwg, mae'r casgliadau a'r argymhellion yn y bennod hon yn cynnwys sylwadau sydd wedi'u cyfeirio at y prosiect yn benodol a materion ehangach sydd yn ymwneud â darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws y sector addysg bellach yn fwy cyffredinol. Dengys hyn nad oes modd ystyried y prosiect heb godi cwestiynau am y cyd-destun a'r heriau cyffredinol y mae colegau yn eu hwynebu.
- 7.3 Yn olaf, ystyrir y dystiolaeth a gasglwyd yng nghyd-destun y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Cyflwynir arsylwadau a dadansoddiad y tîm ymchwil, ac ystyrir cyfraniad y prosiect tuag at nodau ac amcanion y Strategaeth yn ei chyfanrwydd.

*Amcan 1: Galluogi'r colegau i ddatblygu strategaeth gadarn a rhoi cynllun ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr.*

- 7.4 Dengys y dystiolaeth bod gwaith yr Hyrwyddwyr, drwy'r dylanwad cynyddol sydd ganddynt yn eu sefydliadau, wedi arwain at gynnydd clir

yn y sylw a roddir i gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynnydd na fyddai, yn ôl pob tebygolrwydd, wedi'i weld oni bai am fodolaeth rôl yr Hyrwyddwyr. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw holl ganlyniadau a thraweffeithiau'r gwaith datblygiadol a chynllunio a wneir gan golegau eto wedi dwyn ffrwyth yn llawn, a bod y gwaith o newid diwylliant a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gynyddu darpariaeth yn broses tymor hir.

- 7.5 Mae colegau wedi cyrraedd gwahanol gamau yn y broses o gynllunio strategol. Serch hynny mae'r amrywiaeth hwn i'w ddisgwyl o ystyried y ffaith bod nifer sylweddol o'r Hyrwyddwyr yn gymharol newydd i'w swyddi. Mae'r diffyg darpariaeth Cymraeg yn hanesyddol mewn rhai sefydliadau hefyd yn golygu bod y sylw a roddir i gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn amrywio ar draws y sector.
- 7.6 Mae'r astudiaeth hon yn tanlinellu rhai o'r heriau sydd ynghlwm ag asesu cynnydd yn erbyn Amcan 1. Ar y naill ochr, mae ystod o ffactorau yn dylanwadu ar waith yr Hyrwyddwyr (cyfeirir, er enghraifft, yn yr adroddiad hwn at ddatblygiadau polisi addysg bellach, y gyfundrefn gyllido). Gallai'r Hyrwyddwyr fod yn cyflawni gwaith arloesol ac o ansawdd uchel, ond gall bod ffactorau eraill yn rhwystro sefydlu strategaeth sefydliadol gefnogol. Ar yr ochr arall, gallai ffactorau eraill hwyluso datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith yr Hyrwyddwyr.
- 7.7 Mae datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru fel un o'r pedair blaenoriaeth ar gyfer y sector addysg bellach ar gyfer 2014/15. Nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol yn ei lythyr i'r sector dyddiedig 24 Mai 2013 ei fod yn *'disgwyl i bob sefydliad lunio adroddiad ar y camau gweithredu arfaethedig hyd at 2015 gan nodi sut y bydd yn cynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog'*.<sup>27</sup> Mae hyn yn arwydd bod angen camau pellach i wella'r cynllunio strategol sydd yn

---

<sup>27</sup> Llythyr gan y Gweinidog Dysgu a Sgiliau at benaethiaid sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, 24 Mai 2013, gweler: <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131024-priorities-further-education-institutions-2014-15-cy.pdf>

digwydd ar draws y sector addysg bellach i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

- 7.8 Mae holl sefydliadau addysg bellach Cymru wedi derbyn cefnogaeth ariannol drwy'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd i ymgorffori a rhoi ar waith gynlluniau i gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai sefydliadau gymryd y cyfrifoldeb i ariannu a gyrru datblygiadau fel rhan o'u blaenoriaethau craidd, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.
- 7.9 Gwelwyd bod yr amrywiaeth o ran modelau darparu'r prosiect yn dylanwadu ar gynnydd wrth ddatblygu prosesau cynllunio strategol i gefnogi darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mae'r Hyrwyddwyr i gyd wedi eu penodi ar lefel uwch diwtor o leiaf. Serch hynny, mae amrywiaethau o ran statws y swydd ac atebolrwydd. Teimla'r Hyrwyddwyr hynny sydd wedi'u 'lleoli' ar lefel uwch o fewn strwythur rheoli'r coleg bod ganddynt fantais gan fod cyswllt mwy uniongyrchol gyda chyfarwyddwyr neu uwch dimau rheoli'r sefydliad. Beth bynnag yw'r model a statws Hyrwyddwyr, mae'n bwysig bod cefnogaeth lawn gan y Pennaeth i amcanion y prosiect a bod protocolau clir mewn lle ar gyfer adrodd cynnydd i'r Pennaeth a'r uwch dim rheoli. Nodwyd hyn fel mater o bwys yn y gwerthusiad o'r prosiect peilot yn 2008, gydag argymhelliad yn pwysleisio'r angen am gyd-berthynas rhwng uwch dimau rheoli sefydliadau, yr Hyrwyddwyr a chynrychiolwyr ar draws cyfadrannau'r colegau (tud 35).<sup>28</sup>
- 7.10 Mae yna wersi ar gyfer yr Hyrwyddwyr sy'n newydd i'w swyddi mewn perthynas â modelau darparu a sicrhau cefnogaeth ehangach i'w gwaith. Mae profiadau Hyrwyddwyr sydd wedi'u sefydlu ers peth amser yn dangos gwerth creu grŵp llywio yn y coleg yn gynnar yn y broses. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y gefnogaeth ychwanegol yn werthfawr am sawl rheswm:
- mae'n gweithredu fel seinfwrdd i adnabod blaenoriaethau a chyfleoedd i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;

---

<sup>28</sup> Arad Research ar ran Llywodraeth Cymru. *Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* (Hydref 2008).

- drwy sicrhau cynrychiolaeth eang ar y grŵp, mae'n golygu bod negeseuon yn rhoadru yn fwy cyflym ac eang ar draws sefydliadau;
- mae'n medru cyfrannu at gynaliadwyedd y prosiect drwy sicrhau cynllun gwaith a threfniadau mwy ffurfiol a strwythuredig o gwmpas rôl yr Hyrwyddwyr.

7.11 Gallai sefydliadau addysg bellach cefnogi gwaith Hyrwyddwyr drwy sicrhau ymagwedd fwy strategol a chydlynus i'r broses o gefnogi datblygiad darpariaeth Gymraeg.

#### **Argymhelliad 1: i Lywodraeth Cymru**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl golegau yn cwblhau cynlluniau gweithredu i ddatblygu darpariaeth Gymraeg a'u bod ar gael yn gyhoeddus. Er mwyn cefnogi'r cynlluniau gweithredu hyn, dylai colegau sicrhau bod gan Hyrwyddwyr gyswllt uniongyrchol gydag uwch reolwyr perthnasol yn y sefydliadau a'u bod yn derbyn cefnogaeth gan grŵp llywio mewnol.

*Amcan 2: Cynyddu nifer y cyrsiau a modiwlau safonol sydd ar gael i ddysgwyr yn y colegau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r continwum iaith Gymraeg.*

7.12 Mae'r data a gyflwynir gan sefydliadau ar nifer y modiwlau a chysiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu hadroddiadau monitro yn anghyson ac yn seiliedig ar ddulliau adrodd amrywiol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd adnabod tueddiadau neu ddod i gasgliadau cadarn ar gynnydd yn erbyn Amcan 2.

7.13 Nodwyd bod angen i golegau wella eu data monitro ar gyfer nifer y cyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn argymhelliad yn yr adroddiad gwerthuso ar y prosiect peilot yn 2008 (tud. 36).<sup>29</sup> Mae cyflwyno'r adroddiadau monitro blynyddol yn gam cadarnhaol sydd wedi

<sup>29</sup> Arad Research ar ran Llywodraeth Cymru. *Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* (Hydref 2008).

cryfhau'r broses fonitro ond mae lle i wella'r cysondeb yn y modd y mae'r colegau yn casglu a chyflwyno'r data hwn (gweler Argymhelliad 2 isod).

Amcan 3: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

- 7.14 Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes (LLWR) yn dangos twf ar lefel genedlaethol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ers gosod targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar feincnod 2007/8. Gwelwyd cynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru o gynyddu'r canran o weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog i 7 y cant yn 2015 (cynnydd o 4.8 y cant yn 2007/08 i 5.7 y cant yn 2010/11).
- 7.15 Mae'r data ar lefel sefydliadol a adolygwyd yn yr astudiaeth hon, sy'n seiliedig ar adroddiadau monitro wyth o'r colegau, yn dangos bod nifer y myfyrwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau cyfrwng Gymraeg a dwyieithog wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae lle i wella'r modd y mae colegau yn adrodd ar gynnydd yn erbyn Amcan 3 yn eu hadroddiadau monitro er mwyn cymharu tueddiadau ar draws sefydliadau.

**Argymhelliad 2: i Lywodraeth Cymru**

Dylai colegau, gyda chymorth ColegauCymru, wella ansawdd y data a gesglir ar yr opsiynau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a nifer y myfyrwyr sy'n dewis yr opsiynau hynny. Dylai'r data yma fod ar ffurf gyson sydd yn caniatáu cymharu rhwng sefydliadau a thros amser.

- 7.16 Cyhoeddwyd ‘Safonau mewn perthynas â’r iaith Gymraeg’ mewn dogfen ymgynghorol yn Ionawr 2014.<sup>30</sup> Bydd y safonau hyn yn cymryd lle’r system bresennol o Gynlluniau Iaith Gymraeg. Disgwylir y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyflwyno safonau pellach yn ymdrin â chyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill, gan gynnwys colegau addysg bellach. Bydd angen i golegau ystyried goblygiadau’r datblygiadau hyn wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol.
- 7.17 Mae Hyrwyddwyr yn wynebu rhwystrau wrth geisio symbylu galw ymysg myfyrwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Adrodda rhai colegau bod canlyniadau arolygon mesur y galw mewnol a chyfweliadau gyda dysgwyr sy’n siarad Cymraeg yn dangos diffyg diddordeb ymysg dysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg mewn mynychu cyrsiau neu fodiwlau Cymraeg. Mae peth tystiolaeth o’r gwaith maes gyda dysgwyr yn ategu’r canfyddiadau hyn. Yr her i Hyrwyddwyr yw casglu a chyflwyno tystiolaeth o fanteision cynnal sgiliau iaith Gymraeg. Awgrymwyd y gellid defnyddio modelau rôl i gymryd rhan mewn cyflwyniadau neu weithgareddau i hybu manteision dwyieithrwydd. Dylid ystyried pa mor berthnasol yw gweithgareddau a strategaethau marchnata sefydliadau eraill (e.e. y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) yng nghyd-destun gwaith yr Hyrwyddwyr yn y sector addysg bellach.
- 7.18 Mae’r adroddiad ‘Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector’ sydd wedi’i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i golegau i gynllunio a darbwyllo dysgwyr o fanteision sgiliau Cymraeg.<sup>31</sup> Mae’r adroddiad, sy’n seiliedig ar arolwg o 4,000 o gyflogwyr, yn darparu gwybodaeth fanwl am yr angen am sgiliau Cymraeg presennol ac i’r dyfodol gan gyflogwyr Cymru ar draws wyth sector. Gallai’r canfyddiadau fod o ddefnydd i golegau wrth iddynt annog dysgwyr i gynnal neu wella’u sgiliau Cymraeg fel rhan o’r cyrsiau.

<sup>30</sup> Llywodraeth Cymru (Ionawr 2014), *Dogfen Ymgynghori: Safonau arfaethedig mewn perthynas â’r Gymraeg* <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140106-consultation-on-standards-relating-to-the-welsh-language-cy.pdf>

<sup>31</sup> Llywodraeth Cymru (Ebrill 2014), *Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector* <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-language-skills-needs-eight-sectors/?lang=cy>

### **Argymhelliad 3: i Golegau Cymru**

Dylid llunio canllawiau i golegau ar ddulliau o annog myfyrwyr i ddilyn rhan o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Amcan 4: Cynnal a gwella sgiliau Cymraeg y dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu rai dwyieithog.

- 7.19 Gwelwyd ymdrechion gan golegau i gynnal a gwella sgiliau ieithyddol myfyrwyr. Fodd bynnag, hyd yma nid yw wedi bod yn bosibl i fesur effeithiolrwydd y cynllun mewn perthynas â'r Amcan hwn, yn bennaf oherwydd bod colegau yn defnyddio dulliau amrywiol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth ar allu ieithyddol myfyrwyr. Dylai prosesau monitro newydd a gyflwynwyd yn 2013 – sy'n golygu bod colegau bellach yn gorfod cyflwyno gwybodaeth ar lefel cymhwyster iaith Gymraeg uchaf pob myfyriwr ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn yr ysgol, cyn iddynt ddechrau'r cwrs – alluogi sefydliadau i dargedu cefnogaeth i wella sgiliau Cymraeg dysgwyr ac i fesur cynnydd dros amser.
- 7.20 Mae'r pwynt uchod ynghylch targedu cefnogaeth briodol i ddysgwyr yn bwysig. Awgryma'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan ddysgwyr yn ystod yr astudiaeth hon eu bod yn falch o'r cyfle i gynnal rhan neu rywfaint o'u cyrsiau drwy'r Gymraeg.

### **Argymhelliad 4: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai sefydliadau sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg i brofi rhai modiwlau neu elfennau o'u cyrsiau yn y Gymraeg, fel modd o gynnal eu sgiliau.

Amcan 5: Cynyddu nifer staff y coleg a all helpu ac sy'n gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg.

Amcan 6: Datblygu gallu staff er mwyn i golegau roi mwy o gymorth i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, cyfleoedd dysgu ffurfiol yn ogystal â sefyllfaoedd cymdeithasol anffurfiol fydd yn datblygu sgiliau ieithyddol dwyieithog ac ymwybyddiaeth iaith ymhellach.

7.21 Ystyrir Amcanion 5 a 6 gyda'i gilydd.

7.22 Nododd rhai colegau eu bod yn ystyried sgiliau ieithyddol wrth benodi staff er mwyn cynnal ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gwneir hyn am y tro cyntaf yn sgil penodi'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Mae'r sefydliadau yn ymwybodol bod cyfleoedd i gynyddu nifer y staff sy'n medru darparu cyrsiau yn y Gymraeg drwy recriwtio staff newydd gyda sgiliau yn y Gymraeg, mewn meysydd blaenoriaeth a phynciau lle mae'r galw yn tyfu.

7.23 Mae'r dulliau o asesu'r angen am staff sy'n medru addysgu yn y Gymraeg yn amrywio. Mewn rhai sefydliadau mae sgiliau iaith Gymraeg yn ffurfio rhan bwysig o strategaethau staffio, sy'n gosod pwyslais penodol ar gynyddu nifer y staff gyda sgiliau yn y Gymraeg. Mae colegau eraill yn adrodd eu bod wedi recriwtio aelodau staff unigol gyda sgiliau iaith Gymraeg mewn ffordd *ad hoc*, gan ymateb i anghenion penodol sydd wedi'u hadnabod. Ymddengys nad oes yna fonitro systematig o'r nifer o swyddi a hysbysebwyd gan sefydliadau lle mae'r gallu i addysgu yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol.

#### **Argymhelliad 5: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai colegau sicrhau eu bod yn ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi newydd gan ystyried proffil ieithyddol cyfadrannau'r colegau a meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.



### **Argymhelliad 6: i GolegauCymru**

Dylai ColegauCymru ledaenu'r arfer da a welwyd mewn rhai colegau wrth gyflogi staff gyda sgiliau Cymraeg i'w galluogi i ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg newydd.

- 7.24 Mae'r colegau yn cefnogi'r erfyn, a ddatblygwyd gan CBAC ar ran Llywodraeth Cymru, i gynorthwyo ymarferwyr i adnabod lefel eu sgiliau Cymraeg; mae defnydd pellach o'r erfyn adnabod sgiliau yn hwyluso'r broses o adnabod bylchau (mewn sgiliau iaith) a thargedu datblygiad sgiliau pellach yn y Gymraeg.

### **Argymhelliad 7: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai colegau sicrhau eu bod yn gwneud defnydd o'r erfyn adnabod sgiliau iaith Gymraeg a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hwyluso'r broses o ddatblygu sgiliau'r gweithlu ar wahanol lefelau i ddiwallu'r flaenoriaeth strategol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Amcan 7: Sefydlu a chynnal rhaglen fentora yn y coleg i gefnogi staff y coleg sy'n dilyn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

- 7.25 Cesglir yn yr adolygiad hwn bod rhaglenni mentora yn medru sicrhau bod cefnogaeth werthfawr mewn lle i fagu hyder ymysg tiwtoriaid sydd wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hyrwyddwyr wedi chwarae rôl bwysig wrth sefydlu rhaglenni mentora ym mwyafrif y sefydliadau addysg bellach. Mewn rhai achosion, yr Hyrwyddwyr eu hunain sydd yn cynnig y cymorth mentora.
- 7.26 Dengys y dystiolaeth bod angen hyblygrwydd wrth gynnig cymorth mentora, gan deilwra'r gefnogaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion ymarferwyr. Mae'r cymorth mentora a gynigiwyd yn cynnwys

cefnogi cyn-gyfranogwyr y cwrs Sabothol i atgyfnerthu eu sgiliau newydd a'r cymorth i diwtoriaid gyda chynllunio a darparu unedau a modiwlau yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

**Argymhelliad 8: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai sefydliadau sefydlu a ffurfioli rhaglenni mentora er mwyn sicrhau bod cymorth priodol ar gael sy'n galluogi ymarferwyr i fanteisio ar y sgiliau iaith Gymraeg sydd ganddynt.

*Amcan 8: Rhannu arfer da a chynnig cymorth ymarferol yn y colegau ac mewn cydweithrediad â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yn yr ardal, gyda chefnogaeth Sgiliaith.*

7.27 Er bod cefnogaeth ar gael i ddatblygu adnoddau a chynlluniau gwaith cyfrwng Cymraeg drwy wahanol ffynonellau, adroddir bod prinder adnoddau yn medru bod yn broblem i rai tiwtoriaid. Awgrymwyd y byddai ffordd o 'fapio' yr adnoddau sydd ar gael mewn gwahanol bynciau yn gymorth i'r Hyrwyddwyr ac i ymarferwyr. Gallai'r broses hon adnabod cyfleoedd i rannu adnoddau rhwng sefydliadau ar lefel genedlaethol.

**Argymhelliad 9: i GolegauCymru**

Dylid ystyried cwblhau ymarfer i fapio'r adnoddau cyfrwng Cymraeg a ddatblygwyd ac a ddefnyddir gan golegau a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i rannu adnoddau lle'n bosibl.

7.28 Pwysleisia Hyrwyddwyr ac uwch-reolwyr sefydliadau bwysigrwydd cydweithio gyda phartneriaid eraill sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd i gefnogi datblygiad darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Teimla rhai Hyrwyddwyr eu bod yn ceisio arwain ar gynllunio darpariaeth yn strategol heb gefnogaeth ddigonol gan bartneriaid allweddol yn lleol nac ar lefel genedlaethol. Awgrymwyd bod rôl bosibl i Lywodraeth Cymru a ColegauCymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau bod y sector

addysg bellach yn cydweithio'n well â'r sector addysg uwch lle mae eisoes ymarferwyr â sgiliau Cymraeg.

#### **Argymhelliad 10: i Lywodraeth Cymru**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gefnogaeth bellach y gellid ei chynnig er mwyn annog colegau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau blaenoriaeth neu feysydd o arwyddocâd strategol.

*Amcan 9: Dylai'r colegau gynllunio ac ariannu rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd fel rhan annatod o strategaethau cyffredinol y coleg ar ôl i'r arian grant ddod i ben.*

7.29 Un o amcanion allweddol y prosiect yw y dylai colegau gynllunio ac ariannu rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd fel rhan annatod o strategaethau cyffredinol y coleg ar ôl i'r arian grant ddod i ben. Teimlir bod yr hinsawdd ariannol ehangach, law yn llaw gydag adolygiadau diweddar o'r trefniadau cyllido, wedi golygu nad yw colegau wedi medru cynllunio ymlaen gyda sicrwydd. Sgil-ffaith hyn ar y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yw nad oes ymrwymadau cadarn wedi'u rhoi i gynnal gwaith yr Hyrwyddwyr ym mwyafrif y colegau. Tra ei bod yn galonogol bod rôl yr Hyrwyddwyr wedi'i chynnal (a'i chryfhau) yn y colegau a fu'n rhan o'r cynllun peilot gwreiddiol, mae'r darlun yn ansicr yn y colegau sydd wedi ymuno â'r prosiect yn fwy diweddar. Serch hynny, mae'r ffaith bod cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr sefydliadau yn cydnabod bod angen buddsoddiad dros y tymor hir er mwyn gwireddu amcanion y prosiect yn tanlinellu pwysigrwydd parhau i gefnogi'r rôl.

7.30 Mae rhai colegau wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol i ariannu tiwtoriaid ychwanegol, mentoriaid neu ddatblygiad adnoddau. Fodd bynnag, mae'r buddsoddiad ychwanegol yn amrywiol, a golyga hyn bod y gefnogaeth a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i Hyrwyddwyr yn

wahanol iawn o un coleg i'r llall. Mae hyn yn effeithio yn uniongyrchol ar botensial yr Hyrwyddwyr i gefnogi datblygiadau yn eu colegau.

**Argymhelliad 11: i sefydliadau addysg bellach**

Dylai colegau gadarnhau eu cynlluniau i gynnal rôl yr Hyrwyddwyr, gan gynnwys nodi sut y bydd swyddogaethau'r Hyrwyddwyr yn cael eu hymgorffori o fewn gwaith y sefydliad yn barhaus.

**Arwyddocâd y casgliadau yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

- 7.33 Mae'r adrannau isod yn ystyried arwyddocâd ehangach y dystiolaeth ynghylch effaith y prosiect yng nghyd-destun y gwaith o werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ei chyfanrwydd. Mae'n ymdrin â'r cwestiynau a gyflwynwyd yn Adran 1.5 yr adroddiad hwn, sy'n cysylltu'r astudiaeth hon gyda'r Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y rhaglen ymchwil yn ehangach.
- 7.34 Nid yw'r isod yn ymdrech i ddod i gasgliadau terfynol ynghylch cyfraniad y prosiect i nodau'r Strategaeth; bydd y rhaglen ymchwil ehangach yn rhoi ystyriaeth fanylach i hyn. Serch hynny, mae'n briodol ein bod yn gosod casgliadau'r astudiaeth bresennol yng nghyd-destun y rhaglen ymchwil a'r ystyriaethau a fydd yn cael sylw yn y gwerthusiad llawn o'r Strategaeth.

*Ym mha ffordd y mae'r prosiect wedi gwella'r broses o gynllunio darpariaeth?*

- 7.35 Cesglir bod gwaith yr Hyrwyddwyr yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i *'wella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant'*, un o nodau strategol perthnasol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rôl yr Hyrwyddwyr wedi golygu bod

sefydliadau wedi ffurfioli'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- 7.36 Gan fod y prosiect wedi'i gyflwyno yn raddol fesul coleg dros gyfnod o wyth mlynedd, mae'r broses o sefydlu seilwaith cadarn i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fwy datblygedig mewn rhai colegau nag eraill. Gwelir tystiolaeth yn y colegau hynny lle mae'r Hyrwyddwyr wedi eu sefydlu ers dechrau'r prosiect o'u gallu i ymgorffori gwaith yr Hyrwyddwyr fel rhan ganolog o brosesau cynllunio'r colegau. Mae yna fodelau ac arferion da wedi'u sefydlu drwy'r prosiect sy'n cynnig gwersi gwerthfawr wrth i waith yr Hyrwyddwyr barhau yn y cyfnod nesaf.

*A yw'r prosiect wedi helpu sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i mewn i gyrsiau ôl-16?*

- 7.37 Gwelwyd bod partneriaethau newydd yn datblygu rhwng colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy waith yr Hyrwyddwyr. Mae tystiolaeth bod colegau yn targedu datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd galwedigaethol allweddol.
- 7.38 Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad bod cyndynrwydd ymysg carfan o ddysgwyr a dderbyniodd addysg cyfrwng Cymraeg cyn-16 i barhau ag addysg Gymraeg yn y sector addysg bellach. Tra bod rhai llwyddiannau wedi'u hadrodd, nid yw'n ymddangos bod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lefel y galw am addysg bellach cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- 7.39 Cesglir bod angen ymagwedd fwy strategol gan golegau er mwyn adnabod y dysgwyr gyda sgiliau Cymraeg a gwella'r ffordd y caiff darpariaeth Gymraeg, a manteision cynnal a gwella sgiliau iaith Gymraeg, eu marchnata.

*A yw'r prosiect wedi cyfrannu at y nod o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg ymarferwyr?*

- 7.40 Mae gallu Hyrwyddwyr i ddatblygu perthynas dda gydag ymarferwyr/tiwtoriaid wedi hwyluso'r broses o adnabod anghenion

hyfforddiant iaith. Mae Hyrwyddwyr wedi cyfeirio ymarferwyr at gyrsiau iaith Gymraeg a chysiau ymwybyddiaeth iaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, ymddengys bod hwn yn digwydd mewn ffordd *ad hoc*, heb fod yn rhan o strategaeth neu'n seiliedig ar gynlluniau clir i ddatblygu darpariaeth mewn pynciau neu feysydd penodol. Teimlir bod lle i wella'r dulliau o gefnogi sgiliau iaith drwy'r prosiect gan sicrhau bod yr hyfforddiant yn bwrpasol ac yn rhan o gynllun gweithredu sefydliadol (gweler Argymhelliad 1).

- 7.41 Yn ogystal, profwyd anawsterau wrth ddod i gasgliadau ar y mater hwn yn ystod y broses o adolygu data monitro'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Fel y nodwyd yn Adran 5.5, mae diffyg cysondeb yn y data yn ei gwneud yn anodd dadansoddi data ar allu ieithyddol ymarferwyr colegau addysg bellach.

*Beth yw'r prif ffactorau sy'n hwyluso/rhwystro cynnydd yn erbyn deilliannau?*

- 7.42 Ymddengys bod ymrwymiad clir a chryf gan uwch reolwyr yn ffactor bwysig y tu ôl i unrhyw gynnydd. Awgryma'r dystiolaeth bod gosod yr iaith Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel blaenoriaeth strategol ar lefel sefydliadol yn gyrru datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd angen ystyried pwysigrwydd arweiniad strategol wrth gefnogi cynnydd tuag at nodau a deilliannau disgwyledig y Strategaeth.

- 7.43 Nodir y prif rwystrau yn Adran 7.17 gan gynnwys diffyg galw am ddarpariaeth gan ddysgwyr, prinder adnoddau ac ansicrwydd o safbwynt y gefnogaeth ariannol i yrru datblygiadau.

*A yw'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn plethu â/ategu rhaglenni eraill sy'n rhan o'r Strategaeth?*

- 7.44 Mae cysylltiadau rhwng gwaith yr Hyrwyddwyr a'r Cynllun Sabothol.<sup>32</sup> Mae un o fodelau'r Cynllun Sabothol wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer y sector addysg bellach, ac wedi'i gynllunio i gwrdd â gofynion

<sup>32</sup> Llywodraeth Cymru (Ionawr 2014), *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012*

ymarferwyr a sefydliadau. Adroddwyd bod rhai Hyrwyddwyr wedi adnabod tiwtoriaid priodol i fynychu'r cwrs Sabothol ond nid yw'n glir i ba raddau y mae'r broses o annog tiwtoriaid i fynychu'r Cynllun Sabothol yn seiliedig ar gynllunio strategol gan sefydliadau.

- 7.45 Mae colegau wedi cyfrannu at bartneriaethau ardal neu fforymau 14-19 sy'n cynllunio darpariaeth ar lefel leol a rhanbarthol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth hon yn codi cwestiynau pellach ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn mesur y galw am addysg Gymraeg/dwyieithog ôl-16 ac yn adnabod bylchau mewn darpariaeth. A yw'r broses o gynllunio darpariaeth yn amrywio ar draws y gwahanol sectorau neu gyfnodau addysg? A yw'r cynllunio ar draws y gwahanol sectorau yn ymateb i alw neu a oes ymdrech i gynllunio er mwyn ysgogi galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? Dengys y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth hon bod rhai colegau yn mynd ati i geisio sbarduno galw yn rhagweithiol. Mae asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws gwahanol gyfnodau addysg a hyfforddiant, dilyniant ieithyddol a'r gefnogaeth ganolog yn elfennau creiddiol o'r gwerthusiad llawn o'r rhaglen ymchwil yn ei chyfanrwydd. Bydd adroddiadau eraill fel rhan o'r rhaglen ymchwil yn ystyried a yw creu '*system sy'n ymateb i alw'r cyhoedd*' am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sail strategol gadarn ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y gwahanol gyfnodau addysg (Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, tud. 4).

*Y gwrthffeithiol: A fyddai'r datblygiadau a welwyd yn y colegau wedi digwydd yn absenoldeb y prosiect?*

- 7.46 Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd gan reolwyr sefydliadau a Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd, mae'n annhebygol iawn y byddai'r datblygiadau a welwyd ar draws y sector wedi digwydd pe na bai'r prosiect yn bodoli. Yn sicr, mae bodolaeth yr Hyrwyddwyr wedi sbarduno datblygiadau ar lefel strategol ac mewn ffyrdd mwy ffurfiol a strwythuredig.
- 7.47 Yn ei hanfod, hwyluso newidiadau i brosesau cynllunio colegau yw prif waith yr Hyrwyddwyr; mae'n fuddsoddiad dros gyfnod cymharol fyr i

geisio cyflwyno newidiadau tymor hir i'r ffordd y mae colegau yn gweithredu. Fel y gwelir yn y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn, mae'n cymryd amser i gynnydd neu draweffeithiau amlygu eu hunain wedi i rôl newydd gael ei chreu mewn sefydliadau mawr fel colegau addysg bellach.

- 7.48 Mae'r sylwadau a'r cwestiynau yn yr adrannau uchod yn faterion y byddwn yn dychwelyd atynt yn ystod elfennau dilynol y rhaglen ymchwil.



## Atodiad A: Canllaw holi astudiaeth Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd

### Canllaw Holi'r Hyrwyddwyr

#### PWRPAS Y CYFWELIAD

- Dod i ddeall natur y rôl Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn y coleg a chefnidir darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sefydliad
- Casglu unrhyw wybodaeth monitro neu ddata ar lefel y sefydliad
- Mynd o dan groen y cynllun a deall sut cynllunnir y ddarpariaeth; rôl partneriaethau; capasiti staff; ethos Cymraeg a chynaliadwyedd
- Trefnu cyfweiliadau pellach (tiwtoriaid, uwch reolwyr, myfyrwyr) lle bo'n briodol.

#### A. CYFLWYNIAD

##### PWRPAS

Cyflwyno'r gwaith ymchwil a galluogi ymatebwyr i gyflwyno'u hunain

#### Arad:

- Diolch i'r ymatebydd am gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, cyflwyno Arad
- Egluro diben y gwaith ymchwil:

Mae Arad wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Bwriad y gwaith yw ystyried dylanwad yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn perthynas â chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn Addysg Bellach ac i ddarparu argymhellion penodol. Mae'r prosiect yn rhan o werthusiad ehangach o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Tawelu meddwl o ran cyfrinachedd; rhannu manylion cyswllt Arad.

#### Hyrwyddwr

- Holi am rôl yr Hyrwyddwr (yn y swydd ers pa hyd, prif gyfrifoldebau, safle yn y coleg ayb)

#### B. CEFNDIR Y CYNLLUN A CHEFNIDIR DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG / DWYIEITHOG YN Y SEFYDLIAD

1. Beth yw cefndir y cynllun yn y coleg a faint o hanes fu o ddarparu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog cyn hyn?
2. Beth yw eich llwyddiannau hyd yma?
3. Sut fydddech chi'n mesur llwyddiant y cynllun dros y tymor hirach?
4. Beth caiff ei fonitro, sut, gan bwy?

#### C. CWESTIYNAU MANWL FESUL THEMA

##### THEMA 1: CYNLLUNIO DARPARIAETH A THREFNU

5. Sylwadau / casgliadau ar y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau o ran:
  - i) Cyflwyno darpariaeth newydd (boed yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a/neu datblygu sgiliau cyfathrebu)

- ii) Y gwaith i farchnata a chodi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr ac eraill o gyfleoedd.
- iii) Datblygu'r ethos

### **THEMA 2: RÔL PARTNERIAETHAU WRTH GYNLLUNIO**

- 6. Pwy yw eich prif bartneriaid tu fewn a thu allan i'r Coleg?.
- 7. Sylwadau/casgliadau ar y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau o ran y partneriaethau/ rhwydweithiau mewnol ac allanol (e.e. gyda'r Llywodraeth; neu gyda chyrrff eraill, fforymau 14-19, ysgolion, darparwyr eraill).

### **THEMA 3: DATBLYGU'R GWEITHLU/CAPASITI STAFF**

- 8. Sylwadau/casgliadau ar y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau o ran:
  - i) deall a datblygu capasiti staff
  - ii) anghenion hyfforddiant

### **THEMA 4: CREU AMGYLCHEDD CEFNOGOL**

- 9. Sylwadau/casgliadau ar y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau o ran:
  - i) creu ethos Cymraeg
  - ii) hyder pobl ifanc a'u rhieni o ran dewis darpariaeth Cymraeg
  - iii) defnydd o'r iaith tu allan i'r dosbarth

### **THEMA 5: CYNALIADWYEDD**

- 10. Sylwadau/casgliadau ar y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau o ran:
  - i) cynaliadwyedd y capasiti sydd wedi'i ddatblygu;
  - ii) cynaliadwyedd unrhyw newidiadau i broffil y Gymraeg o fewn y sefydliad.

### **CH: Sylwadau clo**

- 11. Pa gyfraniad y mae'r cynllun yn ei wneud tuag at wireddu gweledigaeth a thargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg? e.e. o safbwynt gwella'r broses o gynllunio ôl-14; sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd; dilyniant ieithyddol (o'r cyfnod statudol drwy ôl-16 ac ôl-19).
- 12. Beth yw'r prif wersi rydych chi wedi eu dysgu ac y dylid eu hystyried at y dyfodol?
- 13. Beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf fel sefydliad o ran hyrwyddo dwyieithrwydd?
- 14. Os heb ateb eisoes, beth yw'r gweithgareddau/cynnydd yn erbyn amcanion y Cynllun?

**Diolch a gorffen**

### **THEMA 1: CYNLLUNIO DARPARIAETH A THREFNU**

Sgôp y thema: Sylwadau/casgliadau cyffredinol ar gynnydd o safbwynt: i) cyflwyno darpariaeth newydd, yn gyfrwng Cymraeg a dwyieithog a sgiliau cyfathrebu; ii) gwaith i farchnata a chodi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr ac eraill o gyfleoedd. iii) datblygu'r ethos

|              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|--------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CRYFDERAU    | <p>15. Beth yw eich argraff chi o pa mor llwyddiannus mae'r cynllun Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wedi bod o safbwynt datblygu a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog hyd yma?</p> <p>16. Sut ydych chi wedi blaenoriaethu'r gwahanol agweddau o rôl yr Hyrwyddwr (datblygu capasiti staff; marchnata; cynyddu darpariaeth; datblygu ethos Gymreig ayb) Er enghraifft yw eich coleg wedi ceisio targedu datblygu darpariaeth mewn meysydd arbennig?</p> <p>17. Pa waith sydd wedi ei gyflawni/ar y gweill o ran datblygu sgiliau cyfathrebu dwyieithog?</p> <p>18. Pa waith ydych chi wedi ei wneud i farchnata/codi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o gyfleoedd i ddilyn cyrsiau neu fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg? Yw'r gwaith yma wedi bod yn llwyddiannus?</p> |
| GWENDIDAU    | <p>19. Pa rwystrau ydych chi wedi dod ar eu traws wrth fwrw ati i hyrwyddo dwyieithrwydd yn y coleg? Sut ydych chi wedi /bwriadu ymateb i'r rhwystrau yma?</p> <p>20. Pa rwystrau ydych chi wedi eu hwynebu wrth geisio ymateb i'r galw gan fyfyrwyr? /wrth weithio gyda'r tîm rheoli/ weithio gyda thiwtoriaid?</p> <p>21. Oes yna fylchau mewn meysydd pwnc penodol yr ydych yn awyddus eu llenwi? Os oes, pa feysydd?</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| CYFLEOEDD    | <p>22. Ydych chi'n ymwybodol o bynciau/meysydd penodol lle mae yna alw am ddarpariaeth dwyieithog gan ddysgwyr, ond nad oes capasiti i gwrdd â'r galw?</p> <p>23. Ydych chi wedi rhannu arfer da gyda cholegau eraill?</p> <p>24. Oes datblygiadau eraill wedi digwydd yn sgil eich rôl? (e.e. dulliau newydd o weithio / deunyddiau.) Os oes, rhowch enghreifftiau.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| BYGYTH-IADAU | <p>25. Oes unrhyw sgil-ffeithiau negyddol wedi codi wrth geisio cynyddu darpariaeth? (e.e. recriwtio a chadw staff)</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |

### **THEMA 1b: RÔL PARTNERIAETHAU WRTH GYNLLUNIO**

**Sgôp y thema:** I gynnwys partneriaethau/rhwydweithiau mewnol yn y coleg a phartneriaethau allanol (e.e. gyda chyrrff eraill, ysgolion, darparwyr eraill)

|              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|--------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CRYFDERAU    | <p>26. (Lefel genedlaethol) A yw'r trefniadau rheoli yn cefnogi'r prosiect yn effeithiol o ochr Llywodraeth Cymru? Beth yw manteision/anfanteision hyn i'r Cynllun? Beth am y gefnogaeth gan ColegauCymru/Sgiliaith?</p> <p>27. (Lefel rhanbarthol a lleol) Pwy yw'r partneriaid allweddol i chi yn eich rôl fel hyrwyddwr dwyieithog? (i- o fewn y coleg a ll y tu allan – ysgolion, Rhwydwaith 14-19, Y Sir, consortia ac ati) Sut aethpwyd ati i sefydlu'r partneriaethau hyn? Beth oedd eich rôl chi?</p> <p>28. Oes gennych chi unrhyw enghreifftiau o bartneriaethau/cydweithio llwyddiannus rydych chi fel Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wedi bod yn rhan ohonynt? A yw'r rhain yn bartneriaethau newydd/wedi newid ers sefydlu rôl yr Hyrwyddwr?</p> <p>29. Beth y mae'r partneriaethau yma wedi ei gyflawni?</p> <p>30. Natur y cydweithio gyda Sgiliaith.</p> |
| GWENDIDAU    | <p>31. A oes yna fylchau amlwg o safbwynt eich partneriaid posib?</p> <p>32. Oes yna unrhyw ymdrechion i greu partneriaethau nad ydynt (hyd yn hyn) wedi dwyn ffrwyth? Os oes, beth yn eich barn chi yw'r rhesymau dros hyn?</p> <p>33. Pa anawsterau ydych chi wedi dod ar eu traws wrth geisio cydweithio gydag unigolion allweddol, adrannau academiaidd, ysgolion neu gyrff allanol i gwrdd ag amcanion y cynllun?</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| CYFLEOEDD    | <p>34. Yn eich barn chi, pa gyrff/ mudiadau/adrannau eraill o fewn y coleg ddylai fod yn cyfrannu tuag at gynyddu darpariaeth? Ym mha ffordd y gellid galluogi i hynny ddigwydd? (Beth am adran farchnata; adnoddau dynol?)</p> <p>35. Sut ydych chi wedi cadw cyswllt a rhannu gwybodaeth ar draws y partneriaethau? Oes cyfleoedd i wella ar hyn?</p> <p>36. Faint o rannu arfer da/cynnig cymorth sy'n digwydd rhwng darparwyr?</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| BYGYTHIAD AU | <p>37. Os yna unrhyw ffactorau sy'n debygol o rwystro gallu'r coleg i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill yn y dyfodol? Oes yna ffyrdd o ddatrys/goresgyn y rhwystrau yma?</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |

## **THEMA 2: DATBLYGU'R GWEITHLU / CAPASITI STAFF**

**Sgôp y thema:** Sylwadau / casgliadau cyffredinol ar gynnydd o safbwynt: i) capasiti staff ii) anghenion hyfforddiant

|           |                                                                                                                                                                                                                                        |
|-----------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CRYFDERAU | 38. Pa mor llwyddiannus mae'r cynllun wedi bod o safbwynt datblygu capasiti ymysg staff y coleg i fedru darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?                                                                                  |
|           | 39. Sut ydych chi wedi blaenoriaethu ymdrechion i ddatblygu capasiti staff? Ydych chi/y coleg wedi ceisio targedu datblygu capasiti mewn meysydd arbennig?                                                                             |
|           | 40. Pa waith ydych chi wedi ei wneud i farchnata/codi ymwybyddiaeth ymysg cydweithwyr? E.e. o gyfleoedd i ddilyn cyrsiau fel y Cynllun Sabothol neu fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg? Yw'r gwaith yma wedi bod yn llwyddiannus?         |
|           | 41. (ADNODDAU) Beth yw'r broses o ran prynu adnoddau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn eich sefydliad? Pa adrannau/pynciau sy'n defnyddio/pwrcasu adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog? Oes proses o adnabod galw/archebu o fewn y coleg? |
|           | O.N Bydd rhagor o gwestiynau am adnoddau ar gyfer tiwtoriaid gan gynnwys - Pa adnoddau sydd wedi cael ymateb da gan adrannau/fyfyrrwyr? Oes adnoddau penodol sydd ddim ar gael ar hyn o bryd?                                          |
| GWENDIDAU | 42. Pa rwystrau ydych chi wedi dod ar eu traws wrth geisio cynyddu capasiti staff yn y coleg i fedru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog? Sut ydych chi wedi/y gellid ymateb i'r rhwystrau yma?                             |
|           | 43. Pa rwystrau ydych chi wedi eu hwynebu wrth ddelio gyda (i) adnoddau (ii) asesu a dilysu (iii) byrddau arholi ayb                                                                                                                   |
|           | 44. Oes yna fylchau mewn meysydd pwnc penodol yr ydych yn awyddus i'w llenwi? Os oes, pa feysydd?                                                                                                                                      |
| CYFLEOEDD | 45. Beth yw eich dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg staff? Y'ch chi'n monitro hyn?                                                                                                                                                        |
|           | 46. Oes rhaglen fentora i gefnogi staff y coleg sy'n dilyn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?                                          |
|           | 47. Ydych chi'n ymwybodol o bynciau / meysydd penodol lle mae yna alw am ddarpariaeth dwyieithog gan ddysgwyr, ond nad oes capasiti i gwrdd â'r galw?                                                                                  |
| ARALL     | 48. Oes tiwtoriaid / adrannau y gallwn siarad â hwy?                                                                                                                                                                                   |

### **THEMA 3: CREU AMGYLCHEDD CEFNOGOL**

**Sgôp y thema:** Sylwadau/casgliadau cyffredinol ar gynnydd o safbwynt: i) creu ethos Cymraeg (II) hyder pobl ifanc a'u rhieni o ran dewis darpariaeth Cymraeg iii) defnydd tu allan i'r dosbarth

|           |                                                                                                                                                                                |
|-----------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CRYFDERAU | 49. Sut ydych chi mynd ati i ddatblygu ethos Cymraeg? Pa mor llwyddiannus mae'r cynllun wedi bod o safbwynt datblygu ethos Cymraeg?                                            |
|           | 50. Sut mae eich gwaith yn ffitio fewn i strategaethau eraill/cynlluniau y coleg yn fwy eang?                                                                                  |
|           | 51. Yw'r cynllun hyd yma wedi cyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog (lle mae'n adeiladu ar peth darpariaeth); sut gall wneud hynny yn y dyfodol? |

|               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|---------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| GWEND IDAU    | 52. Pa rwystrau ydych chi wedi dod ar eu traws wrth geisio (i) creu ethos Cymraeg (ii) cyfathrebu manteision darpariaeth cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog i fyfyrwyr a rhieni?                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| CYFLEOEDD     | 53. Sut mae eich cynlluniau yn ateb galw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i gynnig llwybrau dysgu hyfyw i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>54. Oes cyfleoedd dysgu anffurfiol a / neu sefyllfaoedd cymdeithasol lle mae cyfleoedd i fyfyrwyr ymarfer eu Cymraeg?<br>55. Pa fecanweithiau recriwtio myfyrwyr / marchnata sy'n gweithio'n dda ar lefel leol? A ydych chi wedi rhoi cynnig ar fecanweithiau nad oeddent yn gweithio cystal? |
| BYGYI HIADA U | 56. A oes unrhyw weithgareddau eraill yr hoffech eu darparu; os felly, beth ydyn nhw a phaham nad oes modd eu darparu?                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |

#### **THEMA 4: CYNALIADWYEDD**

**Sgôp y thema:** Cynaliadwyedd y capasiti sydd wedi'i ddatblygu; ariannu; cynlluniau strategol y colegau a newidiadau i broffil y Gymraeg o fewn y sefydliad.

|           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|-----------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CRYFDERAU | 57. Pa mor gynaliadwy / sefydlog ('embedded') yw'r datblygiadau sydd wedi'u cyflwyno hyd yma / sut y bwriedir mynd ati i sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd??<br>58. Yw proffil darpariaeth cyfrwng Cymraeg /dwyieithog wedi newid dros gyfnod y Cynllun? Ym mha ffordd? Oes unrhyw enghreifftiau gennych chi i gefnogi hyn? Yw ethos y coleg wedi newid o gwbl? Oes adnoddau / offerynnau newydd (e.e. deunyddiau marchnata; tudalennau gwe, bas data, adnoddau dysgu)<br>59. Yw'r prosiect yn cynrychioli gwerth am arian, yn eich barn chi?<br>60. Yw'r coleg wedi cyfrannu arian / adnoddau / amser staff yn ychwanegol i'r arian a ddaw o'r Llywodraeth? Fyddai'r coleg wedi ariannu unrhyw beth mwy yn absenoldeb arian y Llywodraeth? |
| GWENDIDAU | 61. Oes unrhyw enghreifftiau lle mae capasiti neu ddarpariaeth ychwanegol wedi cael ei ddatblygu ond nid yw wedi cael ei roi ar waith neu heb gael ei gynnal?<br>62. Unrhyw enghreifftiau lle nad yw cyflenwad a galw wedi cyfateb?                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| CYFLEOEDD | 63. Sut mae'r drefn ariannu gan y Llywodraeth yn dylanwadu ar eich rôl ac ar gynllunio strategol / hir dymor?<br>64. Oes unrhyw ffynonellau ariannu neu gronfeydd eraill y gallai'r coleg wneud ceisiadau iddynt am arian i gryfhau addysg Gymraeg?<br>65. Yw'r coleg wedi gwneud ceisiadau o'r fath? Ym mha ffordd y gellid galluogi i hynny ddigwydd?<br>66. Os yna gynlluniau ar y gweill i sefydlogi gwaith yr Hyrwyddwyr ymhellach? Os oes, beth?                                                                                                                                                                                                                                                                                           |

|             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|-------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| BYGYTHIADAU | <p>67. A yw lefel y grant ( a felly lefel staffio) yn ddigonol i ddiwallu anghenion y cynllun? (Os nad ydynt, beth arall sydd ei angen a phaham nad yw hyn yn ei le, e.e. diffyg ariannu, diffyg recriwtio mewnol, anawsterau wrth recriwtio.)</p> <p>68. Faint o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd fyddai'n debygol o gael ei barhau pe na bai arian penodol i gefnogi'r fenter?</p> <p>69. Yn ystod y gwerthusiad peilot, clywsom fod darpariaeth Cymraeg weithiau'n gorfod cystadlu gyda blaenoriaethau strategol eraill o fewn colegau? Yw hyn yn wir yn eich coleg chi?</p> <p>70. Oes yna densiynau rhwng y gwahanol flaenoriaethau ac os oes, sut y gellid ymdrin â'r sefyllfa yma?</p> |
|-------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

## Atodiad B: Rhestr yr unigolion a gyfrannodd at yr astudiaeth

### YMWELIADAU COLEG

|                                                                                      |
|--------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Coleg Iâl</b>                                                                     |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| Tiwtor Gwasanaethau Cyhoeddus                                                        |
| Rheolwr Addysgu a Dysgu                                                              |
| Grŵp o 6 disgybl y Fagloriaeth                                                       |
| Grŵp o 6 disgybl o Ysgol Morgan Llwyd                                                |
| <b>Coleg Sir Gâr</b>                                                                 |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| Pennaeth Cynorthwyol                                                                 |
| Grŵp o 3 tiwtor                                                                      |
| Cerdd (x2); Chwaraeon;                                                               |
| Grŵp o 5 disgybl                                                                     |
| Chwaraeon, Datblygu, Hyfforddi a Ffithrwydd                                          |
| <b>Coleg Ystrad Mynach</b>                                                           |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| <b>Coleg Menai</b>                                                                   |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd / Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd                                  |
| Uwch-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Academaidd                                             |
| Grŵp o 7 tiwtor                                                                      |
| O adrannau Peirianeg ac Adeiladwaith; Cerdd, Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus      |
| Grŵp o 8 disgybl                                                                     |
| 4 x Antur Awyr Agored L3; 3 Peirianeg L2 (yno am y dydd o Ysgol Bodedern) 1 Cerdd L2 |
| <b>Coleg Llandrillo</b>                                                              |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| <b>Coleg Powys</b>                                                                   |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd / Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd                                  |
| <b>Coleg Sir Benfro</b>                                                              |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| Swyddog Iaith                                                                        |
| Cyfarwyddwr Ansawdd                                                                  |
| Dirprwy Bennaeth                                                                     |
| <b>Coleg Llŷfasi</b>                                                                 |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| Rheolwr Rheolwraig y Gymraeg, Dwyieithrwydd ac Addysg Gymunedol                      |
| <b>Coleg Caerdydd a'r Fro/WEA/YMCA</b>                                               |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| Tiwtor                                                                               |
| Grŵp o 2 fyfyrwraig gwallt L1                                                        |
| <b>Coleg Gwent</b>                                                                   |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| Tiwtor                                                                               |
| <b>Coleg Pen-y-bont ar Ogwr</b>                                                      |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| <b>Grŵp NPTC</b>                                                                     |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd                                                              |
| Cyfarwyddwr Cwricwlwm                                                                |
| <b>Coleg Ceredigion</b>                                                              |



|                                     |
|-------------------------------------|
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd             |
| Cyfarwyddwr                         |
| Grŵp o 6 o fyfyrwyr                 |
| 4 gwaith saer a 2 gwallt a harddwch |

#### **SGYRSIAU FFÔN GYDA'R HYRWYDDWYR DIWEDDARAF**

|                         |
|-------------------------|
| <b>Coleg Morgannwg</b>  |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd |
| <b>Gwyr Abertawe</b>    |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd |
| <b>Coleg Dewi Sant</b>  |
| Hyrwyddwr Dwyieithrwydd |

#### **CYFWELIADAU GYDA RHANDDEILIAID**

|                                           |
|-------------------------------------------|
| <b>ColegauCymru</b>                       |
| Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd                 |
| <b>Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg</b>      |
| Uwch Swyddog Polisi a Chydymffurfiaeth    |
| <b>Llywodraeth Cymru</b>                  |
| Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg x 2 |

**Atodiad C: Grantiau i sefydliadau addysg bellach i gefnogi prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd  
(2006/07 i 2016/17)**

|                                               | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|-----------------------------------------------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|
| <b>Colegau</b>                                |         |         |         |         |         |         |         |         |         |         |         |
| <b>Glannau Dyfrdwy(Coleg Cambria)</b>         | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       |         |         |         |
| <b>Llandrillo<br/>(Grŵp Llandrillo Menai)</b> | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       |         |         |         |
| <b>Sir Gâr</b>                                | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       |         |         |         |
| <b>Castell Nedd Port Talbot</b>               | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       | X       |         |         |         |
| <b>Ceredigion</b>                             |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |         |
| <b>Glan Hafren/Barri (Caerdydd a'r Fro)</b>   |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |         |
| <b>Coleg Gwent</b>                            |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |         |
| <b>Iâl (Coleg Cambria)</b>                    |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |         |
| <b>Menai (Grŵp Llandrillo Menai)</b>          |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |
| <b>Powys (Grŵp CNPT)</b>                      |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |
| <b>Penfro</b>                                 |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |
| <b>Pen-y-bont</b>                             |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |
| <b>Ystrad Mynach<br/>(Coleg y Cymoedd)</b>    |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |         |
| <b>Morgannwg (Coleg y Cymoedd)</b>            |         |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |
| <b>Merthyr</b>                                |         |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |
| <b>Gwyr Abertawe</b>                          |         |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |
| <b>Coleg Dewi Sant, Caerdydd</b>              |         |         |         |         |         |         |         | X       | X       | X       | X       |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru